# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 27 MEDI 2017 am 2.00 o'r gloch | WEDNESDAY, 27 SEPTEMBER 2017 at 2.00 o'r gloch |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Carwyn Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

**RHAGLEN**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 29 Mawrth, 2017
- 31 Mai, 2017

3 **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU – DIWYGIO SYSTEM ETHOLIADOL LLYWODRAETH LEOL** (Tudalennau 7 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

4 **CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 51 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Rhelowr Datblygu Adnoddau Dynol ar sesiynau cynefino i Gynghorwyr Sir yn dilyn yr etholiadau a threfniadau ar gyfer hyfforddi Cynghorwyr Tref a Chymuned.

5 **ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU** (Tudalennau 61 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y wybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi am waith Cynghorwyr Sir.

6 **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2017/18** (Tudalennau 65 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Victor Hughes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, R G Parry OBE FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth Gwasnaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Dylan Rees, John Arwel Roberts, Dafydd Rhys Thomas |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jim Evans i'r cyfarfod fel Aelod newydd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim wedi'u derbyn.

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd Cofnodion Drafft y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2016 fel rhai cywir.

**Materion yn codi o'r cyfarfod - Eitem 3 - Gwe ddarlledu**

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod ymateb wedi'i dderbyn gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch goblygiadau ariannol gwe ddarlledu cyfarfodydd.

**3. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2017/18**

Cyflwynwyd – adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2017/18.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod gan y Cyngor ddisgresiwn mewn perthynas â thalu cyflogau penodol, fel y'u gosodir gan yr IRP. Mae'r Cyngor wedi derbyn 15 swydd cyflog uwch ar gyfer 2017/18, sy'n cynnwys cyflogau dinesig. Ar gyfer 2015/16 a 2016/17, dyfarnodd y Cyngor gyflogau uwch i 14 deilydd swydd er mwyn lleihau costau democrataidd.

Ymgynghorwyd gydag Arweinwyr Grŵp am lefelau'r taliadau ac maent o'r farn y dylid rhoi taliadau ar yr un lefel â 2016/17 ar gyfer Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau, y Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig yn 2017/18.

Roedd yr adroddiad hefyd yn delio â newidiadau eraill a gyflwynwyd gan yr IRP, gan gynnwys absenoldebau salwch ar gyfer y rhai hynny sy'n derbyn cyflogau uwch.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y derbyniwyd llythyr gan yr IRP ar 17 Chwefror, 2017 yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion yr IRP drwy gyhoeddi datganiad o daliadau a wnaed i Aelodau'r Cyngor cyn 30 Medi y llynedd.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn ar 23 Mai, 2017 ei fod yn cymeradwyo:-**

**5.1.1 Talu cyflogau Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Gwaith;**
**5.1.2 Talu cyflogau Lefel 1 a 2 ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau;**
**5.1.3 Talu cyflogau ar un ai Lefel 1, 2 neu 3 ar gyfer Arweinwyr Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig.**

## 4. DARPARIAETH TGCH AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar anghenon TGCh Aelodau yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod yr Adain TGCh wedi asesu gofynion y Cyngor mewn perthynas ag iPads a darpariaeth TGCh a bod yr Arweinwyr Grwpiau yn cefnogi rhoi iPads newydd, sydd â swyddogaethau ychwanegol, i Aelodau.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y meini prawf yr oedd angen eu bodloni os oedd Aelodau yn dymuno defnyddio eu hoffer eu hunain ar gyfer busnes y Cyngor adref. Nodwyd hefyd y bydd yr hyfforddiant a'r gefnogaeth ar gyfer technoleg iPad yn cael ei ddarparu gan staff TGCh yn dilyn etholiadau'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr hyfforddiant TGCh y mae Aelodau wedi'i gael ers 2013 a diolchodd i'r holl Swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Na fydd y Cyngor yn talu am gysylltiadau band-eang yr Aelodau yn dilyn etholiadau mis Mai 2017 ac y dylai Aelodau ddefnyddio eu band-eang preifat ar gyfer busnes y Cyngor.**
- **Bod yr holl Aelodau yn cael iPads newydd a bod y costau'n cael eu talu o gronfa'r Cyngor.**
- **Blaenoriaethu hyfforddiant a chymorth i Aelodau mewn perthynas â'r defnydd o iPads yn dilyn etholiadau'r Cyngor.**

- **Cadarnhau bod yn rhaid i feini prawf penodol gael eu bodloni os yw Aelodau yn defnyddio eu hoffer eu hunain.**

**5. CYNLLUN DATBLYGIAD CYNEFINO AELODAU - Ebrill 2017 i Fawrth 2018**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â’r uchod.

Mae’r Rhaglen yn darparu fframwaith amlinellol ar gyfer darparu hyfforddiant a fydd yn cynnwys gweithdai, mentora, e-ddysgu a sesiynau un i un. Mae agwedd raddol wedi’i mabwysiadu mewn perthynas â nifer y sesiynau ac ymrwymiadau amser.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro anghenion hyfforddiant Aelodau ac y bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor hwn yn y man.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd hefyd fod y Cynllun Datblygu Aelodau ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac y rhoddir cyfle i Aelodau roi eu mewnbwn ar y Cynllun. Nodwyd y bydd cynllun hyfforddiant mwy manwl yn cael ei gadarnhau dros yr wythnosau nesaf.

**Gan gyfeirio at y Cynllun Hyfforddiant Cynefino, awgrymodd Aelodau y dylai’r holl Aelodau Etholedig gael cynnig hyfforddiant ar faterion Cynllunio ac y dylai’r is-gadeiryddion fod yn rhan o unrhyw gyrsiau sgiliau Cadeirio.**

**Gweithred: Fel y nodwyd uchod.**

**Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai’n codi’r materion uchod gyda’r Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.**

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi’r adroddiad er gwybodaeth.**
- **Nodi bod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2017 wedi mabwysiadu’r Cynllun Hyfforddiant Cynefino fel fframwaith ar gyfer datblygiad Aelodau yn dilyn etholiadau’r Cyngor ym mis Mai 2017.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm

**CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones, Eric Wyn Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Nicola Roberts |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Richard O Jones – Cadeirydd y Cyngor Sir |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Vaughan Hughes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y CYNGHORYDD RICHARD O JONES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **27 Medi 2017** |
| **Teitl yr Adroddiad:** | **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – diwygio system Etholiadol Llywodraeth Leol** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Gofyn am sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol** |

**1. Cefndir**

1.1 Nododd Llywodraeth Cymru ei fwriad i ddiwygio system etholiadol Llywodraeth Leol yn ei Bapur Gwyn 'Cadernid ac Adnewyddiad' yn gynharach eleni.

1.2 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar wahanol ddiwygiadau etholiadol sy'n ymwneud yn bennaf a'r ffordd y mae pobl yn cofrestru ac yn bwrw eu pleidlais. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 10 Hydref, 2017. Mae copi o'r ddogfen ymgynghori ynghlwm (Atodiad 1) Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio moderneiddio system etholiadol Llywodraeth Leol ac mae'n canolbwyntio ar 6 prif faes.

- Datblygu'r etholfraint
- Gwella cofrestru
- Y system bleidleisio
- Y broses bleidleisio
- Sefyll yn yr etholiad
- Swyddogion Canlyniadau

1.3 Ymgynghorwyd ar rai cynigion eisoes yn y Papur Gwyn 'Cadernid ac Adnewyddiad' tra bod eraill yn feysydd newydd.

1.4 Rhagwelir y bydd unrhyw gynigion terfynol a ran diwygio etholiadol yn cael eu cyflwyno trwy'r Bil Llywodraeth Leol ehangach, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2018.

**2. Sylwadau**

2.1 Paratowyd ymateb draft cychwynol (Atodiad 2) a gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor.

## 3. Argymhellion

3.1 Cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor ar yr ymateb drafft cychwynol (Atodiad 2)

3.2 Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i gwblhau'r sylwadau ac ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 10 Hydref, 2017

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**14.09.17**

**Rhif: WG32167**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 18 Gorffennaf 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Hydref 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ystod eang o ddiwygiadau etholiadol. Mae'r diwygiadau arfaethedig hyn yn ymdrin â'r ffordd y mae pobl yn cofrestru i bleidleisio ac yn bwrw pleidlais yn bennaf. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw: **10 Hydref 2017**.<br><br>Gellir cyflwyno'r ymatebion drwy'r ddogfen ar-lein sy'n cynnwys y cwestiynau ymgynghori: **https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-etholiadol-ym-maes-llywodraeth-leol-yng-nghymru**<br>I ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ar-lein neu gofynnwch am yr holiadur cysylltiedig a'i ddychwelyd naill ai drwy e-bost i:RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk<br><br>neu drwy'r post i:<br>Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru<br>Adeilad y Goron,<br>Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gellir dod o hyd i'r dogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru drwy: **https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-etholiadol-ym-maes-llywodraeth-leol-yng-nghymru** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru<br>Adeilad y Goron,<br>Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk<br><br>Rhif ffôn:03000 256913 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni. |

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Cynnwys**


**Rhagair** ........................................................................................................6

1. **Cyflwyniad** .................................................................................................7
2. **Adeiladu'r etholfraint** ...................................................................................8
    - Pleidleisiau i bobl ifanc 16 a 17 oed ..........................................................8
    - Dinasyddion yr UE a dinasyddion gwledydd eraill .........................................9
    - Carcharorion – Gweler yr Atodiad .............................................................10
3. **Gwella'r trefniadau cofrestru**.........................................................................11
    - Rhannu Data a Chofrestru Awtomatig .......................................................11
    - Galluogi ystod ehangach o Swyddogion Cyngor i helpu pobl i gofrestru ...............12
    - Llacio'r rheolau ar gofrestru unigolion...........................................................13
    - Ymgyrchoedd cofrestru wedi'u targedu .......................................................13
    - Adnabod pobl sy'n symud i mewn ac allan o ardal .........................................14
    - Datblygu cofrestr electronig i Gymru gyfan....................................................14
4. **Y system bleidleisio** ......................................................................................16
    - Cynnig dewis: System y Cyntaf i'r Felin neu Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy .....16
    - Cyfnodau pum mlynedd...............................................................................17
5. **Y broses bleidleisio**........................................................................................18
    - Pleidleisio drwy'r post yn unig......................................................................19
    - Pleidleisio electronig....................................................................................20
    - Pleidleisio o bell..........................................................................................21
    - Cyfrif electronig...........................................................................................21
    - Gorsafoedd pleidleisio symudol....................................................................22
    - Pleidleisio mewn llefydd heblaw mannau pleidleisio.........................................23
    - Pleidleisio ar wahanol ddiwrnodau ac ar fwy nag un diwrnod. ..........................23
    - Trefniadau symlach ar gyfer pleidleisio drwy'r post .........................................24
    - Dangos dogfen adnabod mewn gorsaf bleidleisio ............................................25
6. **Sefyll mewn etholiad**.......................................................................................26
    - Dileu'r angen i gyhoeddi cyfeiriad post ymgeiswyr ..........................................26
    - Cyhoeddi datganiad ymgeisydd ar-lein...........................................................26
    - Gwahardd Aelod Cynulliad rhag sefyll fel ymgeisydd cyngor ............................26
    - Y gofyn i ddatgan ymlyniad gwleidyddol .........................................................27
    - Caniatáu i staff cyngor sefyll i'w hethol i'w cyngor eu hunain ............................27
7. **Swyddogion canlyniadau** ................................................................................29
    - Rhoi diwedd ar hawl swyddogion canlyniadau i ffi bersonol ...............................29
    - Symleiddio'r system ffioedd a thaliadau...........................................................30
8. **Casgliad** .........................................................................................................31

**9. Atodiad – Pleidlais i Garcharorion**..........................................................................32

## Rhagair

Mae’r darpariaethau perthnasol yn Neddf Cymru ar faterion etholiadol a chofrestru yn dod i rym y flwyddyn nesaf. Felly, dyma gyfle newydd i Lywodraeth Cymru a’r Cynulliad fynd ati o ddifrif i adolygu’r ffordd y mae democratiaeth yn gweithredu yma, sut mae pobl yn dod yn gymwys i bleidleisio, sut y maent yn arfer eu hawl i bleidleisio a sut y caiff etholiadau eu trefnu.

Yn ein hetholiadau lleol fis diwethaf roedd y profiad o bleidleisio i’r rhan fwyaf o bobl, heblaw am rai eithriadau, yr un fath â’r profiad y byddai eu teidiau a’u neiniau wedi’i gael: cerdded i’r orsaf bleidleisio leol a llenwi papur pleidleisio gyda phensil yn sownd wrth linyn. Rwyf innau, fel sawl un arall, yn mwynhau’r profiad hwnnw, ond gellir hefyd ei ystyried yn rhywbeth hen ffasiwn iawn ac yn gwbl anghyson â gweithgareddau tebyg eraill y mae pobl yn eu profi yn eu bywydau bob dydd.

Mae’r papur ymgynghori hwn yn delio’n bennaf â’r trefniadau ar gyfer cofrestru a phleidleisio a sut y gallem eu newid, ond bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau â’i hymdrechion i gynyddu’r diddordeb mewn cyfranogaeth ddemocrataidd, gyda’r nod o leihau nifer y seddi un ymgeisydd a chael mwy o bobl i bleidleisio mewn etholiadau.

Yn unol â hyn, rwy’n awyddus i bwyso a mesur ffyrdd y gallwn eu defnyddio i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau. Bydd hyn yn cynnwys estyn yr etholfraint i bobl ifanc, gwneud y trefniadau cofrestru yn haws ac yn fwy awtomatig, ei gwneud yn haws pleidleisio drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau, a sicrhau bod pobl yn gwybod yn iawn pwy sy’n sefyll i gael eu hethol.

Rwy’n ymwybodol iawn o bryderon am ddiogelwch a thwyll etholiadol. Mae’r rhain yn ystyriaethau pwysig, ond rhaid dod o hyd i ffyrdd o fynd i’r afael â nhw heb beryglu hawl ddemocrataidd sylfaenol dinasyddion i gymryd rhan mewn etholiadau.

Rwy’n gobeithio y gwnewch chi ymateb i’r ymgynghoriad hwn. Mae’n ymarferiad gwirioneddol i ganfod yr hyn sy’n bosibl, yn ymarferol ac yn ddymunol cyn inni symud tuag at unrhyw newid deddfwriaethol. Fy ngobaith yw y bydd y 12 wythnos nesaf yn ychwanegu syniadau newydd a phosibiliadau ffres, yn ogystal ag yn rhoi ymatebion i’r syniadau a’r posibiliadau sydd wedi’u nodi yma. Wedyn, pan ddaw’r amser i bobl ifanc 16 oed bleidleisio yn yr etholiadau lleol nesaf, bydd yn haws iddynt gofrestru a phleidleisio a bydd nifer fawr ohonynt yn cael eu hysbrydoli i fynd ati i wneud hynny.

**Mark Drakeford,**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae cymryd rhan mewn etholiadau yn hanfodol os ydym am gael system ddemocrataidd iach. Nid trwy ddulliau deddfwriaethol yn unig, na hyd yn oed yn bennaf, y mae cyflawni hyn; yn hytrach mae gofyn i bobl gael eu hysbrydoli'n ddigonol i ddangos diddordeb. Bydd gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill, oll ran i'w chwarae i fynd i'r afael â'r niferoedd isel sy'n pleidleisio a nifer y seddi un ymgeisydd a geir mewn etholiadau lleol, fel y gwelsom yn etholiadau mis Mai. Mae'r papur hwn, fodd bynnag, yn delio'n bennaf â'r ffyrdd sydd gan bobl i gofrestru i bleidleisio a bwrw eu pleidlais.

1.2. Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr eleni ac mae ynddi ddarpariaethau (adran 5 *et seq*) sy'n trosglwyddo'r cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ynglŷn â gweinyddu etholiadau i'r Cynulliad ei hun ac etholiadau i lywodraeth leol. Yn ogystal, mae'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer cofrestru etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau hyn a'r etholfraint sy'n berthnasol iddynt hefyd wedi'u datganoli. Un eithriad i hyn yw'r system gofrestru ddigidol sy'n cael ei gweithredu gan Lywodraeth y DU.

1.3. Hyd yma, ychydig iawn o bwerau a fu gan y Cynulliad o safbwynt etholiadau lleol neu gofrestru etholwyr. Mae ei bwerau o safbwynt etholiadau'r Cynulliad wedi'u cyfyngu i benodi swyddogion canlyniadau (lle bo etholaethau yn croesi ffiniau sirol) a swyddogion canlyniadau rhanbarthol, yn ogystal ag ariannu'r etholiadau hyn drwy ddarparu cyllid i swyddogion canlyniadau a thalu costau'r Post Brenhinol am ddosbarthu deunyddiau etholiadol yr ymgeiswyr.

1.4. Drwy fod Deddf Cymru yn trosglwyddo'r cymhwysedd, ar ôl i'r darpariaethau perthnasol gael eu rhoi ar waith, caiff Llywodraeth Cymru'r cyfle i adolygu fframwaith y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiadau lleol yng Nghymru.[1] Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar yr etholfraint ar gyfer etholiadau lleol, cofrestru etholwyr, systemau a gweithdrefnau pleidleisio, sefyll fel ymgeisydd a swyddogaeth y swyddog canlyniadau. Lle bo'n briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys darpariaethau mewn deddfwriaeth llywodraeth leol maes o law pan fydd y cyfle'n codi.

1.5. Wrth gyflwyno'r cynigion hyn i ymgynghori arnynt, cydnabyddwn y bydd unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu rhoi ar waith yn gofyn am gynllunio manwl a chydweithrediad rhwng y gymuned etholiadol o swyddogion canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol a chyrff statudol. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas waith gadarn â'r gymuned hon (sydd wedi cael llwyddiant ardderchog yn cynnal etholiadau a phleidleisiau eraill yng Nghymru) a bydd yn awyddus i gydweithio'n agos â nhw a rhanddeiliaid eraill i fwrw'r rhaglen ddiwygio yn ei blaen.

[1] Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal adolygiad ar wahân o faint, system etholiadol ac etholfraint y Cynulliad ac mae'n ddigon posibl y ceir materion yn y papur hwn a allai fod yn berthnasol i'r ddau.

## 2. Adeiladu'r etholfraint

- **Pleidleisiau i bobl ifanc 16 a 17 oed**

2.1. Estyn yr etholfraint i gynnwys pobl ifanc 16 oed ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru fyddai'r newid mwyaf yn yr etholfraint ers 1970, pan ganiatawyd i bobl ifanc 18 oed bleidleisio am y tro cyntaf. Mae'r garfan iau eisoes yn cael pleidleisio mewn etholiadau lleol yn yr Alban ac mewn etholiadau i Senedd yr Alban ac fe wnaethant gymryd rhan amlwg yn refferendwm yr Alban ar annibyniaeth.

2.2. Bu'n bolisi gan Lywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn i ostwng yr oed pleidleisio i 16, ac yn wir fe bleidleisiodd y Cynulliad o blaid hyn gyda mwyafrif clir ym mis Mai 2013. At hynny, cynhwyswyd y polisi ym maniffesto'r Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Etholiad Cyffredinol. Dylem fod mewn sefyllfa i weithredu hyn yn fuan.

2.3. Ceir dadl dda dros alluogi pobl ifanc 16 oed i bleidleisio. Gan fod y rhan fwyaf o'r garfan 16 a 17 oed y dyddiau hyn yn dal yn yr ysgol, maent yn dod i lawer mwy o gysylltiad ag addysg wleidyddol o ryw fath nag yr oedd cenedlaethau blaenorol. Mae cyfran uchel iawn o'r grŵp oedran hwn yn defnyddio gwefannau cyfryngau electronig a chyfryngau cymdeithasol ac wedi arfer trafod digwyddiadau gwleidyddol pwysig yn beth cyffredin.

2.4. Mae dysgu am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth yn rhan bwysig o'r cwricwlwm a chaiff dysgwyr y cyfle i astudio gwleidyddiaeth a materion cyfoes drwy wersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a'r cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru.

2.5. Mae'r thema 'Dinasyddiaeth weithgar' yn y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol presennol, sef y ddogfen allweddol y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABCh bresennol ar gyfer disgyblion 7 i 19 oed, yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai hyn olygu eu bod ymysg y gyfran o'r boblogaeth sy'n fwy gwleidyddol-ymwybodol.

2.6. Mae refferendwm yr Alban yn 2014 – lle cafodd pobl ifanc 16 oed yr hawl i bleidleisio am y tro cyntaf yn y DU – yn rhoi arwydd o'r lefelau cofrestru tebygol. Fe wnaeth 109,533 o rai 16 a 17 oed gofrestru, ac amcangyfrifir bod hynny yn 89 y cant o'r rheini a oedd yn gymwys.

2.7. Amcangyfrifwyd bod 75% o bobl ifanc 16 a 17 oed wedi pleidleisio, o'i gymharu â 54% o bobl 18-24 oed a 72% o bobl 25-34 oed, er ei fod yn is nag ar gyfer cyfanswm yr etholwyr (85%). Mae hyn yn awgrymu bod dadl o blaid estyn yr etholfraint, oherwydd y gallai profiad cynnar o bleidleisio yn hawdd arwain at ddiddordeb parhaus, a fyddai gyda lwc yn arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn fwy cyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd. Byddai gostwng yr oed pleidleisio yn gofyn am ymgyrch i sicrhau'r lefelau cofrestru uchaf sy'n bosibl. Gallai hyn fod yn haws ar gyfer y grŵp oedran hwn nag i rai ychydig o flynyddoedd yn hŷn gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn dal

gartref ac, fel y dywedwyd yn gynharach, yn mynychu'r ysgol.

2.8. Ar hyn o bryd, y rhai sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yw'r bobl sydd wedi'u cofrestru ac sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Byddai estyn y gofrestr llywodraeth leol i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed, heb newid y ddeddfwriaeth gyfredol, yn golygu eu bod yn gymwys yn awtomatig i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Wrth gwrs, mater i'r Cynulliad, os dymuna, fydd penderfynu a yw am aros ynghlwm wrth y gofrestr llywodraeth leol ai peidio.

**C1 – A ydych yn cytuno y dylai'r oed i gael hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael ei ostwng i 16?**

- **Dinasyddion yr UE a dinasyddion gwledydd eraill**

2.9. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut y bydd y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn effeithio ar hawl awtomatig dinasyddion yr UE i bleidleisio mewn etholiadau i gynghorau ac i'r Cynulliad yma.

2.10. Bydd y mater hwn yn rhan o'r broses negodi. Mae Llywodraeth y DU ac aelod-wladwriaethau eraill yr UE wedi mynegi parodrwydd cryf i ffurfio cytundeb sy'n diogelu'n llwyr hawliau presennol dinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU, a dyma hefyd yw safbwynt clir Llywodraeth Cymru.

2.11. Mae'r cwestiwn ynglŷn â dinasyddion yr UE a fydd yn cyrraedd y DU ar ôl iddi adael yr UE ychydig yn wahanol, hyd yn oed pe câi hyn hefyd ei gynnwys yn rhan o'r drafodaeth am ddyfodol y berthynas rhwng yr UE a'r DU. Gellid dadlau na ddylai dinasyddion o'r fath gael eu trin yn ddim gwahanol i ddinasyddion gwledydd nad ydynt yn perthyn i'r UE pan na fydd y DU yn aelod o'r UE mwyach – er, wrth gwrs, fod gan ddinasyddion gwledydd y Gymanwlad eisoes hawl i bleidleisio yma ac y byddent, yn ôl pob tebyg, yn cadw'r hawl honno.

2.12. Nid oes gan ddinasyddion gwledydd eraill sy'n byw yma (heblaw am ddinasyddion yr UE neu ddinasyddion gwledydd y Gymanwlad) hawl i bleidleisio. Felly ni chaiff dinesydd o'r Unol Daleithiau, Tsieina neu Rwsia, dyweder, gymryd rhan. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud y dylai dinesydd o'r UE sy'n cyrraedd y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE gael hawliau pleidleisio, yna'n ddibynnol ar lefel yr integreiddio parhaus rhwng y DU a'r UE, gellid dadlau y byddai'n anoddach amddiffyn yr arfer o wahaniaethu rhwng dinasyddion yr UE/y Gymanwlad a dinasyddion nad ydynt o wledydd yr UE/y Gymanwlad. Gellid dadlau, os oes rhywun yn byw yng Nghymru yn gyfreithlon, y dylai'r etholfreiniau lleol a'r Cynulliad hefyd eu cynnwys nhw.

**C2 – A ddylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl i'r DU adael yr UE barhau i gael yr hawl i bleidleisio?**

**C3 – A ddylai hawliau pleidleisio gael eu hestyn i'r holl drigolion cyfreithlon yng Nghymru, heb ystyried eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth?**

**C4 – Caiff dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol yng Nghymru. A ddylai hyn barhau a chael ei estyn i bob cenedl sy'n dod yn gymwys i bleidleisio?**

- **Carcharorion – Gweler yr Atodiad**

2.13. Mae estyn yr etholfraint i garcharorion yn bwnc sy'n codi nifer o ystyriaethau, megis lle y dylid ystyried y mae carcharor yn byw at ddibenion pleidleisio ac a ddylai'r etholfraint gael ei hestyn yn gyffredinol i'r boblogaeth garcharorion ynteu ei chyplysu â meini prawf penodol megis math o ddedfryd neu ei hyd. Oherwydd y cymhlethdodau hyn, nid ydym yn gwneud cynigion polisi cadarn ar hyn o bryd tra bo ystyriaethau cyfreithiol yn parhau i gael eu pwyso a'u mesur. Er hynny, byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau ar ddiwedd yr atodiad, er mwyn cael syniad o'r farn gyhoeddus ar y mater hwn. Byddwn yn talu sylw i'r farn hon wrth ystyried a fyddwn yn deddfu ar y mater hwn ai peidio.

## 3. Gwella'r trefniadau cofrestru

3.1. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried polisïau y bwriedir iddynt helpu pobl i gofrestru'n haws. Nid yw cofrestru i bleidleisio yn awgrymu unrhyw orfodaeth i ddefnyddio'r bleidlais honno. Fodd bynnag, mae angen bod ar y gofrestr cyn y gallwch bleidleisio. Yn yr adran hon rydym yn gwneud cynigion i helpu i sicrhau bod pawb sy'n gymwys i bleidleisio yn cael y dewisiadau hyn.

3.2. Cofrestru etholiadol yw'r weithred o gynnwys enwau ar y gofrestr a ddelir gan y swyddog cofrestru etholiadol ac mae'n enwi pawb sydd â hawl pleidleisio yn yr ardal honno (yng Nghymru, ceir swyddog cofrestru etholiadol ar gyfer pob un o'r 22 sir). Mae'n orfodol darparu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer cofrestru pan ofynnir ichi wneud hynny, a gallech gael dirwy am fethu â gwneud hynny.

3.3. Rhestr o bobl sydd â'r hawl i bleidleisio ydy'r gofrestr felly. Bwriad y cynigion canlynol yw sicrhau bod y nifer fwyaf bosibl o unigolion yn cael eu cynnwys ar y gofrestr. Nid yw'n awgrymu dim gorfodaeth na rhwymedigaeth i fwrw pleidlais. Dewis personol yw hynny.

- **Rhannu Data a Chofrestru Awtomatig**

3.4. Mae cyflwyno trefn etholiadol o gofrestru unigolion yn hytrach nag aelwydydd wedi cael ei groesawu'n gyffredinol, mewn egwyddor. Mae hyn yn cael gwared ar system a oedd wedi'i seilio ar roi pŵer i 'bennaeth yr aelwyd' ddarparu gwybodaeth bersonol am y bobl sy'n byw mewn cyfeiriad - a hynny'n ddiarwybod iddynt, o bosibl. Yn ei lle, cyflwynwyd trefn sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar unigolion i gofrestru.

3.5. Yn anffodus, mae hyn wedi arwain at gwymp yn y niferoedd sydd wedi'u cofrestru, yn enwedig ymysg grwpiau penodol. Mae anallu landlordiaid i gofrestru eu tenantiaid wedi arwain at ostyngiad mawr yn nifer y myfyrwyr sydd ar y gofrestr etholiadol a cheir problemau eraill hefyd yn gysylltiedig â phoblogaethau symudol eraill. Felly, gallai ardaloedd sydd â lefelau uchel o fyfyrwyr, mudwyr neu bobl â ffyrdd o fyw ansefydlog ddioddef yn anghymesur o lefelau cofrestru is.

3.6. Darparodd Deddf Gweinyddu Etholiadol 2013 bŵer i Weinidogion y DU i ganiatáu treialon ar gyfer gwella ffigurau cofrestru. Mae Rhaglen Moderneiddio Trefniadau Cofrestru Etholiadol Swyddfa Cabinet y DU, y mae Llywodraeth Cymru yn cyfranogi ynddi, yn mynd ar drywydd y rhain.

3.7. Un o'r dulliau arloesol y mae Llywodraeth y DU wedi'u cyflwyno i wyrdroi'r cwymp hwn yn nifer y cofrestriadau yw'r cysyniad o rannu data. Yn benodol, cymharwyd y gofrestr â data'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan alluogi swyddogion cofrestru etholiadol i holi a yw unrhyw unigolyn nad yw ar y gofrestr yn byw yn y cyfeiriad a enwir. Gall swyddogion cofrestru etholiadol gynnwys rhywun ar y gofrestr os oes data arall yn cadarnhau eu cred bod rhywun yn byw yn y cyfeiriad hwnnw. Byddai unrhyw broses rhannu data yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data (a gaiff ei disodli'r flwyddyn nesaf gan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol[2]) a byddai gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol ag egwyddorion y Ddeddf honno.

[2] http://www.eugdpr.org/

3.8. Gallai fod posibiliadau sylweddol ar gyfer ehangu'r adnodd hwn drwy ddefnyddio ffynonellau data swyddogol eraill sy'n cofnodi cyfeiriadau unigolion, megis rhai'r DVLA, Cyllid a Thollau EM a rhestrau eraill a gynhelir gan awdurdodau lleol.

3.9. Gellid gwneud hyn drwy roi rhyddid i swyddogion cofrestru etholiadol wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â pha ffynonellau data eraill y gellid dibynnu arnynt, cyn belled, wrth gwrs bod gan y deilydd data arfaethedig sylfaen gyfreithiol i'w ddatgelu.

3.10. Gallai fod gwerth mewn symud yn llawer agosach at system o gofrestru awtomatig.

3.11. Cynigiwyd y safbwynt hwn gan Claire Bassett, Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol, yn ddiweddar, gan ddweud:

*"We believe that more automatic registration processes would greatly improve the system, with voters being added to the register after providing their details to other government services. A key example would be the automatic registration of young people when they are issued with a National Insurance number, helping to address historic under-registration of this age group".*

3.12. Bydd esiamplau eraill lle ceir y posibilrwydd hwn, a gellid rhoi'r rhyddid i swyddogion cofrestru etholiadol eu defnyddio. Mae hyn yn awgrymu ehangu pŵer y Swyddogion i gasglu data ar gyfer y gofrestr mewn ffordd fwy hyblyg nag y mae rheoliadau diweddar wedi'i chaniatáu. Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i swyddogion cofrestru etholiadol arfer eu disgresiwn o ran anfon Ffurflenni Ymholiad Aelwyd ac i ddefnyddio dulliau electronig o anfon gwahoddiadau a llythyrau atgoffa i gofrestru.

3.13. Gallem geisio symud tuag at sefyllfa lle na fyddai angen i etholwyr wneud cais i gael eu cofrestru. Yn hytrach, byddent yn gallu edrych i weld a ydynt wedi'u cofrestru. Os ychwanegir unigolion at y gofrestr heb yn wybod iddynt yn y lle cyntaf, dylid cofio bod cofrestru yn orfodol, ac mai dim ond rhoi'r hawl i bleidleisio y mae bod ar y gofrestr – nid yw'n mynnu bod yr hawl yn cael ei harfer.

**C5 – A ddylai swyddogion cofrestru etholiadol fod â mwy o ddewis o ffynonellau ar gael iddynt i helpu dinasyddion i gael eu hychwanegu i'r gofrestr?**

**C6 – Yn eich barn chi, pa ffynonellau data y dylai swyddogion cofrestru etholiadol eu defnyddio?**

- **Galluogi ystod ehangach o Swyddogion Cyngor i helpu pobl i gofrestru**

3.14. Po fwyaf o ffynonellau a ddefnyddir i lunio'r gofrestr, wrth gwrs, y mwyaf o angen fydd i'r feddalwedd gael ei fformatio i ganfod a hepgor cofnodion dyblyg. Gallai fod manteision amlwg i ganiatáu mynediad i'r gofrestr i ystod ehangach o staff y cyngor, gan alluogi, er enghraifft, y posibilrwydd o gofrestru mewn llyfrgell neu ganolfan hamdden leol. Pan fydd aelodau'r cyhoedd yn cysylltu â'u cyngor am ba

bynnag reswm, gan gynnwys, er enghraifft, ymholiadau am y dreth gyngor, gellid cynnal archwiliad awtomatig yn erbyn y gofrestr.

3.15. Yn anochel, byddai angen cael system ar gyfer hysbysu'r swyddog cofrestru etholiadol neu'i staff yn awtomatig pan fyddai staff eraill y cyngor yn gwneud newid i'r gofrestr, ond ni ddylai hon fod yn broblem anorchfygol, yn enwedig wrth inni symud at gofrestrau electronig. Gallai ddod yn ymarferiad arferol wrth i bobl ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor.

**C7 – A ddylai ystod ehangach o staff awdurdodau lleol gael yr hawl i helpu dinasyddion i gofrestru drwy gael mynediad i'r gofrestr llywodraeth leol a bod â'r gallu i'w diwygio?**

**C8 – Pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio i sicrhau bod y swyddog cofrestru etholiadol yn cadw'r rheolaeth gyffredinol dros y gofrestr?**

- **Llacio'r rheolau ar gofrestru unigolion**

3.16. Gallai fod dadl o blaid llacio'r rheolau ar gofrestru unigolion, fel bod ffurflen aelwyd yn cael ei chaniatáu mewn amgylchiadau penodol ond yn caniatáu i bob unigolyn 'lofnodi', naill ai ar bapur neu drwy ddefnyddio dynodydd a roddwyd iddynt. Byddai hyn yn golygu bod angen o hyd i bob unigolyn nodi ei gyfranogiad yn y broses ond bod ffurflen sengl yn dderbyniol gan y swyddog cofrestru etholiadol.

3.17. Gallai fod manteision i hyn lle bo nifer o bobl yn byw mewn llety gydag un landlord, megis llety prifysgol neu gartref gofal.

**C9 –A ddylai rheolau cofrestru unigolion gael eu llacio i ganiatáu ar gyfer cofrestriadau bloc mewn amgylchiadau penodol, gan ddiogelu hawliau pleidleisio poblogaethau a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu heithrio?**

- **Ymgyrchoedd cofrestru wedi'u targedu**

3.18. Mae swyddogion cofrestru etholiadol eisoes yn gallu cynnal ymgyrchoedd cofrestru wedi'u targedu ond mae'n bosibl y gellid ehangu'r rhain, gan anelu, er enghraifft, at fyfyrwyr ysgol, pobl ddi-waith, tenantiaid cyngor, pobl hŷn mewn gofal – unrhyw gategori lle mae'n bosibl cyrraedd unigolion hysbys.

3.19. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadw cysylltiad agos â Rhaglen Moderneiddio Trefniadau Cofrestru Etholiadol Swyddfa Cabinet y DU a'r treialon sy'n cael eu hyrwyddo ganddi ac rydym yn gefnogol o'i nodau. Mae'r treialon hyn yn caniatáu i swyddogion cofrestru etholiadol ddefnyddio'u dychymyg ynglŷn â sut y maent yn cynnal eu hymgyrchoedd canfasio aelwydydd blynyddol, i'w galluogi i ddefnyddio'u hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

3.20. Mae ymgyrchoedd wedi'u targedu hefyd wedi cael eu cynnal mewn rhai ardaloedd gyda'r nod o weithio gyda phrifysgolion, cymdeithasau tai a thrydydd partïon eraill i geisio cyrraedd y rheini sydd leiaf tebygol o gofrestru fel arall. Mae

dadl o blaid rhoi disgresiwn i swyddogion cofrestru etholiadol ynglŷn â sut y maent yn cynnal eu hymarferion canfasio er mwyn cael cynifer â phosibl i gofrestru. Bu'r Behavioural Insights Team (cwmni diben cymdeithasol sy'n gweithio i gymhwyso gwyddorau ymddygiadol) yn gweithio'n ddiweddar gyda dau awdurdod lleol yng Nghymru ar gofrestru myfyrwyr, a gallai eu gwaith helpu wrth lunio'r deunydd darllen a anelir at y grŵp hwn.

**C10 – A ddylem roi dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried a ddylai unrhyw grwpiau unigol yn eu hardal etholiadol gael eu targedu'n benodol mewn ymgyrchoedd cofrestru?**

- **Adnabod pobl sy'n symud i mewn ac allan o ardal**

3.21. Dylai fod yn bosibl cyflwyno dulliau i adnabod pobl sy'n symud i mewn neu o fewn ardal er mwyn rhoi ffurflenni cofrestru iddynt fel mater o drefn. Gellid cyplysu hyn gyda hysbysiad o'u cyfrifoldeb i dalu'r dreth gyngor, er enghraifft.

3.22. Mae'n bosibl mai adrannau gwasanaethau cymdeithasol neu gyrff iechyd fydd y cyntaf i fod yn ymwybodol o bobl yn symud i mewn, o fewn, neu allan o ardal a gallent hwy roi ffurflenni cofrestru i bobl a hysbysu'r swyddog cofrestru etholiadol o'r symud. Dylai prifysgolion fod yn ymwybodol bod myfyrwyr yn newid cyfeiriad ac yn yr un modd gallent hwy gael cysylltiad â'r broses gofrestru. Gallai cymdeithasau tai, cartrefi gofal a hyd yn oed asiantau tai gael eu cynnwys yn y broses hon.

**C11 – A ddylem gyflwyno trefniadau sy'n golygu bod gan asiantaethau sy'n ymwybodol o bobl yn symud ddyletswydd i roi gwybod i'r swyddogion cofrestru etholiadol?**

- **Datblygu cofrestr electronig i Gymru gyfan**

3.23. Er i ddarpariaethau gael eu cynnwys yn Neddf Gweinyddu Etholiadol 2006 i lunio Cofnod Cydlynus Ar-lein o Etholwyr (CORE), ni sefydlwyd cynllun o'r fath. Mae'n bosibl y byddai Cymru, gyda'i 22 swyddog cofrestru etholiadol, yn ddelfrydol ar gyfer llunio un gofrestr electronig. Gallai hyn hwyluso rhai o'r diwygiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, a byddem yn awyddus i weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a rhanddeiliaid eraill i'w ddatblygu.

3.24. Er mwyn i rai o'r cynigion yn yr adran nesaf weithio'n effeithiol, byddai cofrestr electronig yn fantais gadarnhaol. Ystyriwyd bod y prosiect CORE yn hollbwysig i alluogi etholiadau aml-sianel y gellid eu darparu'n electronig, a gallai hyn fod yn nod inni yng Nghymru.

3.25. Byddai cofrestr Cymru gyfan yn golygu defnyddio meddalwedd gyffredin ar gyfer y gofrestr. Pe cyflwynid pleidleisio electronig / o bell, dylid ei fformatio fel bod y bleidlais yn cael ei chofnodi yn erbyn y gofrestr pryd bynnag a lle bynnag y câi ei bwrw.

**C12 – Beth yw eich barn am ddatblygu un gofrestr electronig i Gymru?**

## 4. Y system bleidleisio

- **Cynnig dewis: System y Cyntaf i'r Felin neu Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy**

4.1. Roedd y Papur Gwyn Llywodraeth Leol (Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad) yn cynnwys y cynnig i ganiatáu i awdurdodau lleol unigol benderfynu a ydynt am aros gyda'r system y Cyntaf i'r Felin (CiF) neu newid i ddefnyddio system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Byddai symudiad o'r fath yn gofyn am adolygiad etholiadol ffres o ardal y cyngor i alluogi wardiau aml-aelod. Byddai'r cynnig yn atal cyngor, os yw'n newid i system etholiadol wahanol, rhag newid yn ôl nes bod o leiaf ddau etholiad wedi'u cynnal.

4.2. Y system Cyntaf i'r Felin yw'r unig system sydd wedi'i defnyddio i ethol cynghorau lleol yng Nghymru ers cyflwyno llywodraeth leol etholedig ar ddiwedd y 19eg ganrif. Hon hefyd yw'r system a ddefnyddir i ethol ASau, ACau etholaethol a chynghorwyr cymuned yng Nghymru. Yn unol â hynny, hon yw'r system etholiadol y mae pleidleiswyr Cymru yn fwyaf cyfarwydd â hi. Er hynny, mae'n ymddangos bod pleidleiswyr yn delio'n iawn â'r etholiadau ar gyfer aelodau rhanbarthol y Cynulliad, Senedd Ewrop a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sydd oll yn defnyddio gwahanol ddulliau o gynrychiolaeth gyfrannol.

4.3. Mae cefnogwyr y system Cyntaf i'r Felin o'r farn fod y drefn bleidleisio a chyfrif yn syml, yn gyfarwydd ac yn gymharol rad ac y ceir perthynas syml rhwng lle mae ymgeisydd yn gorffen yng nghyfrif y pleidleisiau a ph'un a gânt eu hethol ai peidio.

4.4. System etholiadol ddewisol yw'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) sy'n golygu y gofynnir i bleidleiswyr rancio'r ymgeiswyr yn nhrefn eu blaenoriaeth. Caiff pleidleiswyr ddewis rancio'r holl ymgeiswyr sydd ar gael neu ddim ond cynifer ag y dymunant, a allai fod yn ddim ond un.

4.5. Ystyrir bod STV yn system o 'gynrychiolaeth gyfrannol'. Mae fel arfer yn cynhyrchu canlyniadau etholiad sy'n adlewyrchu'n gyffredinol gyfran y pleidleisiau a fwriwyd i'r gwahanol bleidiau gwleidyddol, grwpiau ac annibynwyr mewn ardal ac ar draws yr etholiad cyfan.

4.6. Mae pob etholiad ar gyfer prif gyngor yn etholiad ar wahân. Mae'n briodol y dylai'r cyngor benderfynu ar ei ddull etholiadol yn union fel bydd y Cynulliad yn gallu penderfynu ar ei ddewis ef, er bod hynny o fwyafrif dau draean. Rydym yn cynnig y dylai pob awdurdod gael penderfynu drosto'i hun ar y system etholiadol a ddewisa. Nid ydym yn cynnig cyflwyno'r opsiwn STV ar gyfer etholiadau i gynghorau cymuned, oherwydd bod adolygiad gwraidd a brig o'r sector ar y gweill.

**C13 – A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau fod yn gallu dewis eu system bleidleisio?**

**C14 – A ydych yn cytuno y dylid cael mwyafrif dau draean ar gyfer newid cyfansoddiadol fel hwn?**

- **Cyfnodau pum mlynedd**

4.7. Mae’n fwriad gan Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfnodau pum mlynedd statudol ar gyfer llywodraeth leol, gan ddisodli’r trefniadau cyfnodau pedair blynedd presennol. Byddai hyn yn unol â chyfnod pum mlynedd Senedd y DU (fel y’i pennir yn Neddf Seneddau Tymor Penodol 2011) a chyfnod pum mlynedd y Cynulliad fel y’i pennir yn Neddf Cymru. Byddai hyn yn golygu mai’r dyddiad arferol nesaf ar gyfer etholiadau i lywodraeth leol fyddai Mai 2022.

**C15 – A ydych yn cytuno y dylai cyfnod llywodraeth leol yng Nghymru gael ei bennu’n gyfnod pum mlynedd?**

## 5. Y broses bleidleisio

*[SYLWER: Gallai unrhyw ddiwygiadau i ddulliau pleidleisio a gynigir isod fod yn berthnasol i etholiadau, gan gynnwys isetholiadau, cynghorau cymuned yn ogystal â rhai'r prif gynghorau]*

5.1. I'r rhan fwyaf o bobl, nid yw'r profiad pleidleisio wedi newid llawer gydol eu hoes. Mae'n wir fod cyfran uwch nag erioed yn awr yn pleidleisio drwy'r post ers i'r rheolau pleidleisio absennol gael eu newid yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 er mwyn cynnig hynny fel dewis. Er hynny, lleiafrif sy'n dewis gwneud hynny o hyd.

5.2. Y profiad cyffredinol yw mynd i'r orsaf bleidleisio ar gyfer eich ardal, dweud eich enw wrth y swyddog llywyddu, cael papur pleidleisio, mynd ag ef i'r bwth, ei lenwi â'r pensil a ddarperir a'i roi yn y blwch pleidleisio.

5.3. Fel hyn y mae pethau o hyd, er gwaetha'r ffaith y byddai profiad y rhan fwyaf o bobl o 'bleidleisio' dros bethau eraill yn golygu defnyddio rhyw fath o sgrin gyfrifiadurol, ffôn symudol neu ffôn tŷ neu declyn rheoli teledu. Mewn achosion o'r fath, megis etholiadau neu bleidleisiau mewn undebau llafur neu gymdeithasau eraill, mae'r systemau pleidleisio wedi'u cynllunio i fod yn ddiogel, gyda rhyw fath o godau unigol i geisio sicrhau mai'r unigolyn iawn sy'n pleidleisio – ac mai unwaith yn unig y mae'n gwneud hynny.

5.4. Er bod treialon amrywiol wedi cael eu profi mewn etholiadau lleol a rhanbarthol ar ddechrau'r 2000au, y system draddodiadol sydd gennym o hyd. Mae hyn yn codi cwestiwn: wrth i'r system bleidleisio etholiadol fynd yn fwyfwy croes i sut mae pobl yn byw eu bywydau fel arall, a fydd ei monopoli cymharol yn dod i gael ei ystyried yn grair anacronistig. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, ceir digonedd o dystiolaeth i ddangos, pan mae pobl wir yn meddwl bod pleidleisio'n bwysig, eu bod yn cyrraedd gorsafoedd pleidleisio hen ffasiwn yn eu lluoedd. Nid yw hynny'n golygu, er hynny, na fyddai mwy fyth yn cymryd rhan pe bai dulliau pleidleisio amgen ar gael. Gallai hyn fod yn arbennig o wir am bobl ifanc, y bydd proses yr orsaf bleidleisio yn gynyddol ddieithr iddynt o'i gymharu â'u profiad arferol o lenwi ffurflenni a darparu manylion personol ar-lein ar gyfer bron pob gohebiaeth swyddogol.

5.5. Wrth ddweud hyn, rhaid inni roi sylw i un o'r prif resymau pam nad aethpwyd ar drywydd newid. Mae pryderon am ddiogelwch a thwyll wedi'u mynegi mewn perthynas â phleidleisiau post, yn enwedig, ac ofnir hynny o safbwynt unrhyw fath o bleidleisio o bell. O gyflwyno unrhyw rai o'r diwygiadau arfaethedig i'r dull isod o bleidleisio, byddai angen i swyddogion canlyniadau fod yn effro a pharhau i graffu ar y broses fel y gwnânt yn awr i sylwi ar unrhyw afreoleidd-dra. Nid ydym yn dymuno gwrthod derbyn newid, er hynny, oherwydd pryderon am graffu, o gofio na fu unrhyw achosion o dwyll etholiadol sylweddol yng Nghymru yn ddiweddar.

5.6. Mae cyfle yn awr i ystyried diwygio dulliau pleidleisio. Gellid eu treialu mewn is-etholiadau cyngor neu yn yr etholiadau cyngor arferol yn 2022, neu hyd yn oed eu cyflwyno ar draws Cymru yn 2022. Byddem yn cadw'r darpariaethau presennol yn neddfwriaeth y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol werthuso

unrhyw dreial etholiadol a byddem yn awyddus i weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol - a rhanddeiliaid eraill – i ddatblygu unrhyw fethodoleg newydd.

**C16 – A ydych yn cytuno mewn egwyddor y byddai'n fuddiol diwygio'r system bleidleisio i annog mwy o bobl i gymryd rhan?**

**C17 – A oes unrhyw gynlluniau eraill na roddir sylw iddynt y gellid eu defnyddio i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru?**

- **Pleidleisio drwy'r post yn unig**

5.7. Byddai hyn yn golygu bod pob etholwr yn yr ardal berthnasol yn cael papur pleidleisio drwy'r post ar yr adeg arferol ar gyfer anfon pleidleisiau post. Nid yw'n ymddangos yn debygol y gellid gweithredu hyn yn llwyddiannus heb ddileu'r angen am ddynodwyr personol sy'n ofynnol i gefnogi cais am bleidlais bost. Byddai mynnu proses ymgeisio yn achosi llawer o broblemau gweinyddol a hefyd yn arwain yn anochel at nifer lai o etholwyr. Er hynny, dylid cadw'r datganiad personol i gadarnhau mai'r unigolyn priodol sydd wedi bwrw'r bleidlais. Mae hyn yn ffordd o wirio gonestrwydd y pleidleisiwr, er mai'r unigolyn ei hun sy'n gweinyddu'r broses.

5.8. Wrth gwrs, ni fyddai'n ymarferol bosibl gweithredu'r system hon pe cynhelid yr etholiadau lleol ar yr un pryd â phleidlais arall lle byddai'r rheolau arferol yn weithredol ar gyfer pleidleisiau post. Byddai gofyn am ddynodwyr personol ar gyfer un math o bleidlais bost ond nid y llall – yn enwedig pe bai nifer o bleidleiswyr ar un aelwyd – yn gwneud y broses yn anodd ei dilyn ac yn agored i feirniadaeth.

5.9. Dangosodd treialon blaenorol ar ddechrau'r 2000au fod pleidleisiau post yn unig yn arwain at fwy o bleidleiswyr (er na chynhaliwyd y treial ond mewn un isetholiad cyngor cymuned yng Nghymru). Mae rhesymeg i hyn. Os derbyniwch bapur pleidleisio gyda chyfarwyddiadau ac amlen barod â stamp, mae mwy o siawns y byddwch yn ymateb na bod gofyn ichi fynd i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod penodol rhwng oriau penodol. Byddai angen cydbwyso'r gost o gynnal ymarferiad drwy'r post, gan gynnwys defnyddio amlenni parod â stamp, yn erbyn yr arbedion a wneir drwy ddileu'r angen i weithredu gorsafoedd pleidleisio.

5.10. Ym mis Mai 2003, fe wnaeth 35 o awdurdodau lleol yn Lloegr dreialu pleidleisio drwy'r post yn unig. Canlyniad y treialon hynny oedd argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol y dylid mabwysiadu pleidleisio drwy'r post yn unig fel y dull arferol o bleidleisio mewn etholiadau lleol yn y DU. Adlewyrchai hyn yr effaith gadarnhaol ar y ganran a bleidleisiodd (dyblodd y ffigur mewn rhai llefydd) a'r ffaith na chafwyd dim tystiolaeth bryd hynny o gynnydd mewn twyll.

5.11. Cafodd yr etholiadau lleol a drefnwyd ar gyfer Mai 2004 eu gohirio tan fis Mehefin a'u cyfuno ag etholiadau Senedd Ewrop. Defnyddiodd Llywodraeth y DU'r cyfle hwn i dreialu pleidleisio drwy'r post yn unig yn yr etholiadau hyn ar draws pedwar rhanbarth ac fe wnaeth y treialon ddangos cynnydd sylweddol yn y ganran a bleidleisiodd yn yr ardaloedd hynny.

5.12. Yn ei adroddiad ar yr etholiadau hyn, newidiodd y Comisiwn Etholiadol ei argymhelliad blaenorol gan fod ei ymchwil yn dangos bod lleiafrif mawr o bobl eisiau cadw'r dewis o bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio. Felly, argymhellodd y Comisiwn y dylid datblygu model newydd o amryfal ddulliau pleidleisio, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post, yn hytrach na bwrw ymlaen ag etholiadau a gynhelir yn llwyr drwy bleidleisio drwy'r post yn unig.

5.13. Rydym hefyd yn cydnabod pryderon y Comisiwn Etholiadol am y posibilrwydd o gamddefnyddio pleidleisiau post a byddem yn cefnogi ei alwadau i'w gwneud yn drosedd i unrhyw un heblaw'r pleidleisiwr dan sylw ymyrryd â'r broses o bleidleisio drwy'r post.

**C18 – A ddylai cynghorau gael dewis defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn etholiadau cyngor?**

**C19 – A ddylid cynnal ymarferiadau treialu i ddechrau?**

**C20 – A ddylai cynghorau gael defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn ward unigol neu mewn nifer o wardiau o fewn ardal y cyngor?**

- **Pleidleisio electronig**

5.14. Mae hyn yn golygu gosod offer mewn gorsafoedd pleidleisio (a lleoliadau eraill o bosibl) i alluogi pobl i bleidleisio drwy sgriniau cyffwrdd. Byddai angen o hyd cael rhyw fath o oruchwyliaeth gyfyngedig ar y broses. Byddai'n bwysig sicrhau na allai'r swyddogion yn y mannau pleidleisio weld sut mae pobl yn pleidleisio ond byddai angen iddynt hefyd sicrhau nad yw pleidleiswyr yn cael arweiniad neu gymorth, heb ei awdurdodi, ynglŷn â sut i fwrw eu pleidlais.

5.15. Mae pleidleisio electronig eisoes yn cael ei ddefnyddio'n eang yn rhyngwladol, yn benodol yn India, ond hefyd yng Ngwlad Belg ac Estonia ymysg eraill.

5.16. Mae'n debygol y gellid, trwy dechnoleg, sicrhau bod cyfleuster sgrin gyffwrdd ar gael mewn mannau heblaw'r gorsafoedd pleidleisio arferol, ond byddai angen o hyd i staff hyfforddedig fod ar gael i oruchwylio a helpu. Hefyd, byddai angen ffordd o farcio'r gofrestr i ddangos pwy sydd wedi pleidleisio.

5.17. Mae hyn yn amlwg yn mynd i gostio. Boed angen caledwedd pwrpasol ai peidio, byddai angen i'r swyddog canlyniadau fod yn sicr bod ganddo ddigon o offer yn gweithio ar gael ar y diwrnod pleidleisio.

5.18. Mae'n bosibl arbed costau sylweddol o ran cyfrif pleidleisiau, llogi adeiladau ac amser cyfrif. Ar ôl i'r pleidleisio gau, byddai angen cael lleoliad penodol lle byddai canlyniadau'r bleidlais yn cael eu harddangos, gan ddangos nifer y pleidleisiau a fwriwyd a sut y cawsant eu rhannu rhwng y gwahanol ymgeiswyr.

5.19. Byddai angen mesurau i atal patrymau pleidleisio rhag cael eu gweld cyn yr amser cyfrif, rhag i'r wybodaeth hon gynorthwyo ymgeiswyr neu eu hymgyrchwyr. Yn yr un modd, byddai angen gweithdrefnau diogel i sicrhau diogelwch y data sy'n cael ei drosglwyddo o'r mannau pleidleisio i'r canolfannau cyfrif canolog.

Bydd herio pleidleisiau yn llai tebygol. Gallai'r systemau cael eu gosod fel bod camgymeriad wrth lenwi'r ffurflen bleidleisio yn arwain at wrthod y bleidlais a bod pleidleiswyr yn cael ymgais arall.

**C21 – A ddylai pleidleisio electronig fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

- **Pleidleisio o bell**

5.20. Mae hyn yn cyfeirio at broses o bleidleisio drwy fynediad i'r rhyngrwyd drwy ddyfais electronig, a defnyddio cod adnabod unigol. Mae defnyddio codau o wahanol fathau i sicrhau mai dim ond y sawl a fwriedir sy'n defnyddio system yn gyffredin yn awr ar gyfer prynu, bancio, a phleidleisio yn etholiadau pleidiau gwleidyddol, undebau llafur a sefydliadau eraill. Caiff cofrestru i bleidleisio yn awr ei wneud fel mater o drefn ar-lein, yn yr un modd â chofrestru/trethu cerbydau a defnyddio amryfal drafodion neu wasanaethau cyhoeddus eraill.

5.21. Cafodd pleidleisio o bell ei dreialu mewn etholiadau lleol yn ne Swydd Buckingham ym mis Mai 2007. Er mai dim ond lleiafrif wnaeth ddefnyddio'r cyfleuster, 10 mlynedd yn ddiweddarach mae'r opsiwn yn debygol o fod yn fwy poblogaidd. Ni chafwyd anawsterau technegol penodol ond galwodd y Comisiwn Etholiadol am ohirio'r treialon – a phob un arall – nes bod y system yn gyffredinol yn fwy diogel. Ceir perygl, gyda chofrestru'n cael ei wneud o bell, y gallai ffug-bleidleiswyr gael eu creu ac na fyddai'r pleidleisio yn digwydd mewn amgylchedd diogel, o bosibl. Hefyd, ceir pryderon gwirioneddol am seiberddiogelwch, ac mae angen i unrhyw system fod mor ddiogel â phosibl rhag peryglon hacio a ffugio pleidleisiau. Rhaid pwyso a mesur hyn yn erbyn sefyllfa lle bo'r dull hwn yn dod yn fwy a mwy cyffredin o safbwynt mathau eraill o bleidleisio neu lenwi ffurflenni swyddogol, a rhaid ystyried yr arbedion tebygol o ran effeithlonrwydd hefyd. Mewn o leiaf un wlad Ewropeaid, defnyddir dulliau pleidleisio o bell sy'n caniatáu i unigolyn fwrw pleidlais fwy nag unwaith, gydag ond y bleidlais olaf a gaiff ei bwrw cyn cau yn cyfrif. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd bod rhywun yn ceisio dylanwadu ar etholwr wrth iddo bleidleisio, ond ei fod yn cymryd y cyfle yn nes ymlaen i bleidleisio mewn preifatrwydd.

5.22. Byddai angen cael ffenestr pryd gallai'r pleidleisio ddigwydd; byddai angen i'r cyfrif ddigwydd ar adeg benodol a byddai'n rhaid i'r broses fod yn agored i graffu. Mae'n bosibl hefyd y byddai angen trefniadau ar gyfer pobl a fyddai'n ei chael yn anodd bwrw eu pleidlais fel hyn neu na fyddai'n dymuno gwneud hynny.

5.23. Gallai pleidleisio electronig a phleidleisio o bell gynnwys methodolegau sy'n gwneud camgymeriadau'n llai tebygol ac yn cynyddu'r posibilrwydd o ddelio ag amryfal etholiadau ar yr un diwrnod, drwy gynorthwyo pleidleiswyr drwy'r broses.

**C22 – A ddylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

- **Cyfrif electronig**

5.24. Nid yw cyfrif electronig, o anghenraid, yn mynd law yn llaw â phleidleisio electronig, a dyma'r dull a ddefnyddir erbyn hyn i gyfrif y pleidleisiau mewn etholiadau lleol yn yr Alban, er enghraifft. Mae'r defnydd ohono'n cael ei gyfiawnhau'n benodol gan benderfyniad Senedd yr Alban i ethol cynghorwyr drwy'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy (STV) sy'n esgor ar broses gyfrif

fwy cymhleth nag mewn etholiadau traddodiadol lle defnyddir system y cyntaf i'r felin (gweler uchod).

5.25. Fodd bynnag, nid yw'r broses etholiadol STV yn mynd law yn llaw â chyfrif electronig bob amser. Mae pleidleisiau STV yn cael eu cyfrif â llaw yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'n mynd â mwy o amser ac adnoddau, ond credir ei fod yn fwy tryloyw.

5.26. Mae cyfrif electronig yn ddewis drud. Ceir sôn bod Llywodraeth yr Alban wedi talu £6.5 miliwn am y contract ar gyfer y peiriannau cyfrif a gaiff eu defnyddio eleni. Byddai'n llawer llai, wrth gwrs, i awdurdod unigol yng Nghymru ond gallai fod yn swm chwe ffigur er hynny. Ond mae'n faes lle gellir rhagweld y bydd yn fwy posibl addasu offer yn y dyfodol. Mae'n bosibl y byddai'n well gan awdurdodau brynu offer a hyfforddiant i'w staff yn hytrach nag ymrwymo i drefniadau hollgynhwysol gyda chontractwyr.

5.27. Wrth gwrs, gallai cyfrif electronig fod yn opsiwn hefyd ar gyfer etholiadau drwy'r dull Cyntaf i'r Felin. Dylai fod yn fodd i gyflymu'r broses, gan arbed amser a staff cyfrif o'r herwydd.

5.28. Mae arsylwi ar gyfrif electronig yn llai cymhleth, ac o bosibl yn brofiad llai cyffrous na'r broses gyfrif draddodiadol. Mae'r peiriannau'n cyfrif yn gyflym ac mewn modd llai gweledol; nid ydynt yn rhoi'r pleidleisiau mewn sypiau ond yn hytrach yn cofnodi cyfansymiau. Maent hefyd yn gallu adnabod papurau pleidleisio sydd wedi'u cwblhau'n anghywir a'u dangos i'r swyddog canlyniadau fel y gall farnu a ydynt yn dderbyniol ai peidio.

5.29. Mewn rhai treialon ac yn etholiadau'r Alban yn 2007, cafwyd problemau technegol gyda'r peiriannau cyfrif a wnaeth achosi oedi cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Mae'n ymddangos bod y problemau hyn wedi cael eu goresgyn i raddau helaeth ac mae etholiadau mwy diweddar wedi mynd rhagddynt yn ddidrafferth.

**C23 – A ddylid cyflwyno cyfrif electronig ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru?**

- **Gorsafoedd pleidleisio symudol**

5.30. Mae hyn yn creu'r syniad o rai gorsafoedd pleidleisio yn gweithredu fel llyfrgelloedd symudol, yn ymweld â gwahanol rannau o ardal, yn ychwanegol at orsafoedd pleidleisio 'arferol'. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, cymdogaethau â chanran pleidleisio isel yn draddodiadol a chrynoadau o bobl hŷn.

5.31. Byddai angen i bobl wybod ymlaen llaw faint o'r gloch y byddai'r orsaf symudol yn galw – gorau oll pe bai modd rhoi'r wybodaeth honno wrth ddosbarthu'r cardiau pleidleisio – ac mae'n bosibl y byddai angen math o neges ddarlledu ar y safle.

5.32. Er mwyn i hyn allu gweithio'n llwyddiannus, byddai angen i system cofrestr electronig fod ar waith, i sicrhau na fyddai pleidleiswyr sy'n bwrw eu pleidlais yn yr orsaf symudol yn gallu pleidleisio eto mewn gorsaf bleidleisio 'arferol' – na *vice versa*. Wrth gynnal cofrestr awto-ddiweddaru, byddai angen lefel uchel o sicrwydd bod cysylltiadau dibynadwy'n gweithredu rhwng yr orsaf bleidleisio symudol a'r

gofrestr ganolog er mwyn i'r gorsafoedd pleidleisio cysylltiedig weld pa bleidleisiau a fwriwyd. Fel arall, byddai angen defnyddio system lle byddai angen i bobl gofrestru ymlaen llaw i gael pleidlais mewn gorsaf symudol.

5.33. Pe bai'r un orsaf bleidleisio symudol yn gwasanaethu mwy nag un ward, byddai angen proses i sicrhau bod y papurau pleidleisio o un ward yn cael eu cadw ar wahân i bapurau'r llall. Byddai hyn yn haws pe cyflwynid pleidleisio electronig.

5.34. Byddai hefyd angen cael cyfyngiadau ar ymgyrchu wrth ymyl gorsaf symudol, fel yn achos gorsafoedd pleidleisio eraill. Byddai angen i'r orsaf symudol ei hun, wrth gwrs, fod yn hygyrch i bobl anabl.

5.35. Caniateir gorsafoedd pleidleisio symudol yng Nghanada ond nid ydynt wedi'u treialu yn y DU.

**C24 – A ddylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

- **Pleidleisio mewn llefydd heblaw mannau pleidleisio**

5.36. Byddai'r cynnig hwn yn awgrymu rhoi'r cyfle i bobl bleidleisio mewn llefydd fel archfarchnadoedd, llyfrgelloedd lleol, canolfannau hamdden a gorsafoedd trenau a bysiau – mannau cyhoeddus lle mae pobl yn mynd yn ystod diwrnod arferol.

5.37. Pe bai'r rhain yn cael eu defnyddio yn ychwanegol at orsafoedd pleidleisio 'arferol' - felly heb eu cyfyngu i ardal bleidleisio benodol - unwaith eto byddai cofrestr electronig yn ofynnol er mwyn gallu marcio enw etholwr ar y gofrestr ar ôl iddo fwrw'i bleidlais, i osgoi'r posibilrwydd y byddai'n pleidleisio fwy nag unwaith.

5.38. Cafodd pleidleisio mewn mannau heblaw gorsafoedd pleidleisio arferol ei dreialu ar ddechrau'r 2000au. Mae'n ymddangos na chafwyd problemau, ond roedd yn well gan y rhan fwyaf o bobl aros gyda'u gorsafoedd pleidleisio lleol. Byddai angen i unrhyw fannau a gâi eu dynodi'n fannau ychwanegol i'r gorsafoedd pleidleisio arferol fod yn hygyrch i bawb a byddai gofyn iddynt allu darparu ar gyfer pleidleisio'n gyfrinachol.

**C25 – A ddylem alluogi swyddogion canlyniadau i ddefnyddio mannau pleidleisio eraill yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?**

- **<u>Pleidleisio ar wahanol ddiwrnodau ac ar fwy nag un diwrnod.</u>**

5.39. Yn draddodiadol, dydd Iau yw Diwrnod Etholiadau yn y DU, a hynny o bosibl oherwydd cyfuniad o ffactorau hanesyddol. Dan Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011, dylid cynnal pob Etholiad Cyffredinol ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai bob pum mlynedd, heblaw mewn amgylchiadau arbennig (fel y gwelsom yn ddiweddar).

5.40. Mae'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop yn cynnal etholiadau ar ddydd Sul. Yn y gorffennol, cafwyd gwrthwynebiad i bleidleisio ar y Sul gan gylchoedd crefyddol. Y dyddiau hyn, er hynny, mae llawer o weithgareddau'n digwydd ar y Sul, fel siopa

a chwaraeon – pethau nad oedd yn cael eu caniatáu neu a oedd yn anghyffredin iawn ar un adeg.

5.41. Nid oes raid i awdurdodau lleol gynnal etholiadau ar ddydd Iau ac weithiau maent yn dewis peidio. Gellir cynnal etholiadau cymunedol, er enghraifft, ar wahanol ddyddiau. Roedd y treialon ar ddechrau'r 2000au yn cynnwys pleidleisio ar ddyddiau yn ogystal â dydd Iau ac, os newidiwn i sefyllfa lle gellir marcio'r gofrestr yn electronig i gofnodi pleidleisiau wrth iddynt gael eu bwrw, gellid ei gwneud yn fwy posibl i gynnal y broses etholiadol dros nifer o ddyddiau. Gallai pleidleisio ar fwy nag un diwrnod helpu i oresgyn amgylchiadau fel y digwyddodd mewn rhannau o Lundain adeg y refferendwm ar Ewrop, pan wnaeth llifogydd amharu'n ddifrifol ar drafnidiaeth ar y diwrnod pleidleisio.

5.42. Byddai'r gofyniad i staffio dyddiau pleidleisio dros nifer o ddyddiau, wrth gwrs, yn arwain at gostau cynyddol.

5.43. Byddai angen i'r cyfrif, wrth gwrs, gael ei gwblhau ar un adeg ar ôl i'r holl bleidleisiau gael eu bwrw a byddai angen cadw blychau pleidleisio yn ddiogel am fwy o amser.

**C26 – A ddylem ei gwneud yn bosibl i etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddyddiau heblaw dydd Iau?**

- **Trefniadau symlach ar gyfer pleidleisio drwy'r post**

5.44. Gall unrhyw un wneud cais am bleidlais bost, naill ai ar gyfer un etholiad ar ddyddiad penodol, neu am gyfnod penodol neu'n barhaol. Bydd angen ichi roi eich enw, eich cyfeiriad, eich llofnod a'ch dyddiad geni wrth lenwi'r ffurflen gais.

5.45. Wrth bleidleisio drwy'r post, mae gofyn ichi nodi eich pleidlais ar eich papur pleidleisio yn gyfrinachol, llenwi datganiad pleidlais bost (sy'n cadarnhau mai chi yw'r sawl sydd â'r hawl i fwrw'r bleidlais), rhoi'r bleidlais a'r datganiad yn yr amlen a ddarperir a'i selio eich hun, ac yna'i phostio.

5.46. Efallai y ceir mwy nag un etholiad ar yr un diwrnod, yn achos etholiadau sirol neu gymunedol fel arfer, ond fel arfer gallwch roi'r ddau bapur pleidleisio yn yr un amlen ateb.

5.47. Pobl oedrannus neu bobl sy'n fregus mewn ffordd arall yw llawer o'r bobl sy'n defnyddio pleidlais bost. I lawer yn yr amgylchiadau hyn, gall ffurflenni swyddogol fod yn ddiflas a gallent fod angen help i ddelio â nhw, ac mae hynny'n mynd yn groes i'r bwriad. Ond mae hefyd yn wir bod unigolion nad ydynt yn agored i niwed sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post yn cael y cyfarwyddiadau'n anodd eu dilyn ac, mewn rhai achosion, y broses selio ymhell o fod yn syml.

5.48. Mae'n bosibl iawn bo angen ystyried ffyrdd o wneud deunyddiau'r bleidlais bost yn haws eu deall a'u cwblhau. Yn sicr, mae sefydliadau ar gael sy'n fodlon cynnig eu gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.

**C27 – A ddylid ystyried symleiddio'r deunydd darllen a'r trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post?**

**C28 – Yn eich barn chi, sut y dylai'r broses gael ei symleiddio?**

- **Dangos dogfen adnabod mewn gorsaf bleidleisio**

5.49. Ym mis Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adolygiad gan Syr Eric Pickles o dwyll etholiadol (https://www.gov.uk/government/publications/securing-the-ballot-review-into-electoral-fraud). Er ei fod yn cynnwys llawer o gynigion, yr un a gafodd fwyaf o gyhoeddusrwydd oedd y cynnig y dylid gofyn i bleidleiswyr gyflwyno rhyw fath o ddogfen adnabod bersonol mewn gorsaf bleidleisio cyn cael eu papur pleidleisio. Gallai'r rhain gynnwys pasbort, trwydded yrru neu fil cyfleustod. Nid yw hyn mor anghyffredin â hynny. Mewn rhai achosion, rhaid dangos y cyfryw ddogfennau cyn cael mynediad i ganolfan ailgylchu'r cyngor i brofi eich bod yn byw'n lleol.

5.50. Fodd bynnag, nid yw cyflwyno hyn yn rhywbeth a fyddai'n arwain at ganran bleidleisio uwch. Mae'n fwy tebygol o olygu bod pobl yn cael eu gwrthod ac wedyn ddim yn trafferthu mynd yn ôl. O'r herwydd, mae'n rhoi diogelwch y bleidlais uwchlaw hygyrchedd.

5.51. Mae Cymru, yn ffodus, wedi bod yn gymharol rydd o honiadau o dwyll etholiadol sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, yn wahanol i rai ardaloedd yng nghanol dinasoedd yn Lloegr. O'r herwydd, mae'n anoddach cyfiawnhau'r ddadl dros gyflwyno dogfennau adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru.

**C29 – A ddylai etholwyr sy'n mynd i orsaf bleidleisio orfod dangos dogfen adnabod cyn cael pleidleisio? Os felly, pa fathau o ddogfennau adnabod ddylai fod yn dderbyniol?**

**C30 – A yw manteision mynnu gweld dogfen adnabod yn fwy na'r perygl o rwystro pleidleiswyr?**

## 6. Sefyll mewn etholiad

- **Dileu’r angen i gyhoeddi cyfeiriad post ymgeiswyr**

6.1. Mae angen inni gofio am ddigwyddiadau diweddar, er mor brin ydynt diolch i’r drefn, lle cafodd hygyrchedd gwleidyddion ei gamddefnyddio, gan arwain at iddynt ddioddef ymosodiadau, a hynny’n angheuol mewn un achos. Mae’n bosibl nad yw’n angenrheidiol mwyach i’r swyddog canlyniadau gyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd ar ddeunydd darllen etholiadol. Byddai angen, wrth gwrs, i’r swyddog canlyniadau fod yn fodlon bod yr ymgeisydd mewn etholiad lleol yn gymwys i sefyll, ond os oes angen cyhoeddi manylion cysylltu o hyd, mae’n bosibl y gallai cyfeiriad cyfryngau cymdeithasol neu e-bost ddisodli’r lleoliad ffisegol. Ni fwriedir i’r cynnig hwn atal ymgeisydd rhag dangos ei gysylltiad ag ardal.

**C31– A ydych yn cytuno na ddylai fod yn angenrheidiol bellach i gyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn deunydd etholiadol, gan gynnwys unrhyw beth a gyhoeddir yn electronig?**

- **Cyhoeddi datganiad ymgeisydd ar-lein**

6.2. Ar y llaw arall, gallai mwy o wybodaeth fod ar gael i’r cyhoedd am gredoau neu bolisïau’r ymgeiswyr trwy ddefnyddio cyfleusterau ar-lein. Gellid gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad a fyddai’n cael eu cyhoeddi gyda’i gilydd gan y swyddog canlyniadau ac y gellid dod o hyd iddynt mewn un man ar y we.

6.3. Yr hyn rydym yn ei gynnig yw cyfleuster a ddarperir gan swyddog canlyniadau ond y mae’r cynnwys yn dal i fod yn gyfrifoldeb i’r ymgeisydd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod eu datganiad yn cydymffurfio â’r gyfraith. Caiff swyddog canlyniadau wrthod cyhoeddi datganiad os ystyria ei fod yn mynd yn groes i’r ddeddfwriaeth. Mae’r dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio yn Seland Newydd a’r Iseldiroedd.

**C32 – A ydych yn cytuno y dylid gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad personol i’w gynnwys ar wefan a ddarperir gan yr awdurdod y maent yn gobeithio cael eu hethol iddo?**

- **Gwahardd Aelod Cynulliad rhag sefyll fel ymgeisydd cyngor**

6.4. Mewn adroddiad yn 2014 (http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=14799), galwodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad ar Lywodraeth Cymru i adolygu a yw’n briodol i Aelod Cynulliad hefyd wasanaethu fel cynghorydd sir. Barn Llywodraeth Cymru yw nad yw hyn yn briodol, o ystyried y rôl amser llawn y mae Aelod Cynulliad yn ei chyflawni. Er hynny, mae’n bosibl y caiff y mater hwn sylw drwy eu hanghymhwyso o’r Cynulliad, yn hytrach na thrwy ddiwygio’r ddeddfwriaeth llywodraeth leol. Fel arall, gallai’r rheolau anghymhwyso ar gyfer ethol i awdurdodau lleol gael eu diwygio. Yn y naill achos a’r llall, rydym yn cynnig y dylai cynghorydd fod yn rhydd i sefyll i gael ei ethol i’r Cynulliad, a bod Aelodau’r Cynulliad yn gallu sefyll i gael eu hethol i gyngor, ond, os cânt eu

hethol, y byddai angen iddynt adael y swydd yr oeddent yn ei dal gyntaf ymhen blwyddyn.

**C33 – A ydych yn cytuno na ddylid caniatáu i neb wasanaethu fel Aelod Cynulliad a chynghorydd ar yr un pryd?**

- **Y gofyn i ddatgan ymlyniad gwleidyddol**

6.5. Polisi Llywodraeth Cymru hefyd yw na ddylai fod yn dderbyniol i rywun sefyll am etholiad heb ddatgan ei aelodaeth o blaid wleidyddol, os yw'n aelod. Gellid ystyried gwneud hynny'n anghyfreithlon mewn etholiadau cyngor, gyda'r canlyniad yn cael ei ddatgan yn annilys os gellid profi bod ymgeisydd wedi cadw'r wybodaeth hon yn ôl. Mae gwneud hyn yn drosedd yn awgrymu'r posibilrwydd o anghymhwyso am gyfnod.

6.6. Mae angen datgan ymlyniad gwleidyddol yn y datganiad ymgeisydd ar-lein (gweler uchod) os bu'r ymgeisydd yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol yn ystod y deuddeg mis hyd at, a chan gynnwys, yr etholiad.

**C34 – A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ymlyniad gwleidyddol sydd ganddynt?**

**Q35 – Pa fath o dystiolaeth y dylai fod ei hangen i awgrymu bod ymlyniad gwleidyddol sydd heb ei ddatgelu?**

- **Caniatáu i staff cyngor sefyll i'w hethol i'w cyngor eu hunain**

6.7. Codwyd y mater hwn o'r blaen yn y papur ymgynghori *Grym i Bobl Leol*[3] , a'r pryd hwnnw roedd pwysau'r farn yn erbyn y syniad hwn. Fodd bynnag, hoffem brofi hynny eto yng nghyd-destun y diffyg cynnydd o ran amrywiaeth a welwyd yn etholiadau lleol 2017.

6.8. Mae gan swyddogion a staff Awdurdodau Lleol ar y cyfan ddealltwriaeth drylwyr o'u cymunedau, ynghyd ag ymrwymiad dwfn i wella'u lles. Mae'n bosibl y byddai llawer ohonynt yn gwneud aelodau etholedig effeithiol, ond mae cyfyngiadau ar rai uwch-swyddogion mewn awdurdodau lleol rhag sefyll mewn etholiadau. Yn benodol, er y gall holl weithwyr Awdurdod Lleol (gan gynnwys staff ysgolion) sefyll mewn etholiad oni bai eu bod yn dal swydd â chyfyngiadau gwleidyddol (swyddogion cyflogau uwch yn gyffredinol), ni chaiff yr un ohonynt sefyll mewn etholiad i'r Awdurdod sy'n eu cyflogi. Mae hyn yn gwneud synnwyr o ran na fyddent yn gallu gwneud penderfyniadau a fyddai'n effeithio ar eu hamodau cyflogaeth nhw'u hunain.

6.9. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am archwiliadau a chydbwysedd i sicrhau uniondeb a natur ddiduedd y cyngor a roddir gan swyddogion i aelodau etholedig. Er hynny, o ystyried bod Awdurdodau Lleol yn gyflogwyr pwysig ym mhob rhan o Gymru, gallai'r cyfyngiadau hyn fod yn atal dewis eang o ymgeiswyr addas o gefndiroedd amrywiol rhag sefyll mewn etholiad yn eu hardal leol.

---

[3] http://gov.wales/docs/dsjlg/consultation/150203-power-to-local-people-full-cy.pdf

6.10. Er y gall unrhyw un sydd wedi'i anghymhwyso ar hyn o bryd rhag sefyll ymddiswyddo o'i swydd i sefyll mewn etholiad, mae'n ddatgymhelliad mawr iawn oherwydd y risg i'r unigolyn. Efallai bod dadl o blaid adolygu'r anghymhwyso hwn. Mae'n golygu bod miloedd o unigolion yn methu â sefyll mewn etholiad yn eu hardal eu hunain. Ceisir barn ar a ddylai unrhyw swyddogion Awdurdod Lleol fod â hawl i sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain. Yn yr Alban nid oes gofyn iddynt ond ymddiswyddo o'u gwaith cyflogedig gyda'r Awdurdod ar ôl iddynt gael eu hethol. Neu, gellid cael cyfnod o secondiad i'r cyngor, gan roi'r hawl i'r unigolyn ddychwelyd i'w swydd gyflogedig ar ôl cwblhau'r tymor ar y cyngor, pe bai ei awdurdod cyflogi yn penderfynu hynny. Dull arall fyddai sicrhau, drwy gyfundrefn y cod ymddygiad, bod buddiant yn cael ei ddatgan ar unrhyw fater y mae gan yr aelod fuddiant ariannol neu fuddiant arall ynddo. Byddai hyn yn ehangu'r gronfa o ymgeiswyr posibl gan sicrhau na fyddai gwrthdaro buddiannau ar ôl i'r ymgeisydd gael ei ethol.

6.11. O ran swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol - y deiliaid swyddi hynny mewn awdurdodau lleol na chânt gymryd rhan mewn materion gwleidyddol - mae hyn yn unol â'r farn draddodiadol y dylai swyddogion mewn swyddi uwch sy'n cynghori awdurdod lleol fod yn wleidyddol niwtral. Dan y trefniadau presennol rhaid i bob cyngor, yn ychwanegol at brif swyddogion, gadw rhestr o swyddogion heblaw'r rhai sy'n cynghori neu'n gweithredu ar ran y cyngor yn rheolaidd. Rhaid i unrhyw un ar y rhestr hon ymgeisio i Ddyfarnydd Annibynnol a benodwyd gan Weinidogion Cymru cyn y gall gael ei ryddhau i gymryd rhan. Mae unrhyw geisiadau am ganiatâd yn hynod brin. Ni chafwyd dim ers y 2010au. Ceisir barn ynghylch a ellir cyfiawnhau o hyd yr angen am restr o'r fath - ac felly swydd y dyfarnydd.

**C36 – A ddylai unrhyw rai o staff y cyngor islaw'r lefel uwch fod yn gallu sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain?**

**C37 – A oes cyfiawnhad o hyd i gynghorau gadw rhestr o'r swyddi, heblaw am swyddi uwch-swyddogion, a ddylai fod dan gyfyngiadau gwleidyddol?**

## 7. Swyddogion canlyniadau

- **Rhoi diwedd ar hawl swyddogion canlyniadau i ffi bersonol**

7.1. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi swyddogion canlyniadau i adennill swm am eu gwasanaethau a'u treuliau wrth gynnal etholiad, a hynny oddi wrth y corff sy'n gyfrifol am ariannu'r etholiadau. I etholiadau yng Nghymru, mae hyn yn golygu Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac awdurdodau lleol unigol ar gyfer etholiadau sirol a chymunedol.

7.2. Swydd annibynnol sydd gan swyddog canlyniadau, wedi'i llywodraethu gan statud. Wrth gyflawni eu swyddogaethau, caiff swyddogion canlyniadau eu trin yn wahanol i'r hyn sy'n swydd bob dydd iddynt, ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod yr etholiad yn cael ei weinyddu'n briodol o'r dechrau i'r diwedd. Mae hyn yn golygu elfen fwy o risg nag yn eu gwaith arferol, er bod yna drefniadau indemniad ac yswiriant ar waith fel arfer i gydbwyso hyn yn rhannol.

7.3. Ar gyfer etholiadau yng Nghymru, rhaid i'r swyddog canlyniadau fod yn swyddog cofrestru etholiadol i brif gyngor. Rhaid i bob cyngor benodi un o'i swyddogion yn swyddog cofrestru etholiadol. Ei brif weithredwr yw hwn fel arfer, er nid bob amser. Y prif weithredwr felly yw'r swyddog canlyniadau hefyd fel arfer.

7.4. Un dewis sy'n cael ei ystyried ydy bod swyddogaeth y swyddog cofrestru etholiadol/swyddog canlyniadau yn dod yn swyddogaeth awtomatig i'r prif weithredwr statudol arfaethedig (a gynhwysir ym Mil Llywodraeth Leol Drafft 2016).

7.5. Yn draddodiadol, fel rhan o'r treuliau y gall swyddog canlyniadau eu hawlio oddi wrth y corff ariannu, bu elfen o ffi bersonol. Mae hyn yn cydnabod bod y rôl yn ychwanegol at – neu ar wahân – i'w swydd arferol. Yn y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, tynnwyd cryn sylw cyhoeddus at lefel y cyflogau sy'n daladwy i uwch weision sifil ar adeg o gyni a chyfyngiadau cyffredinol ar gyflogau, yn enwedig cyflogau gweision sifil ar lefel is. Mae hyn wedi cynnwys ffioedd swyddogion canlyniadau sydd, mewn rhai achosion, yn hawliadau lluosog. (Mae hyn yn wir yn achos etholiadau'r Cynulliad, er enghraifft, os yw swyddog canlyniadau yn gyfrifol am fwy nag un etholaeth a/neu'n cael ei benodi'n swyddog canlyniadau rhanbarthol er mwyn ethol Aelodau Cynulliad Rhanbarthol.)

7.6. Rydym yn ystyried deddfu i atal swyddogion canlyniadau rhag adennill ffi bersonol oddi wrth eu hawdurdod eu hunain, a dyblygu'r polisi hwn ar gyfer y ffioedd a'r taliadau sy'n daladwy yn etholiadau'r Cynulliad.

7.7. Os dymunant, bydd awdurdodau lleol yn gallu ystyried a ydynt am gydnabod rôl orfodol y swyddog canlyniadau yng nghyflog y prif weithredwr. Wrth wneud hynny, bydd angen iddynt roi ystyriaeth i'r ffaith bod cyfrifoldeb swyddog canlyniadau yn cynnwys bod yn gyfrifol am etholiadau cynghorau tref a chymuned ac etholiadau'r Cynulliad yn ogystal ag etholiadau i'w hawdurdod eu hunain. Pe dymunent gynyddu'r cyflog at y diben hwn, byddai angen iddynt ofyn i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am ei farn.

**C38 – A ydych yn cytuno y dylai rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau?**

**C39 – A ydych yn cytuno y dylai unrhyw ychwanegiad at gyflog i gydnabod dyletswyddau swyddog canlyniadau fod yn fater i'r awdurdod lleol benderfynu arno?**

- **Symleiddio'r system ffioedd a thaliadau**

7.8. Mae'r system bresennol o dalu am etholiadau i'r Cynulliad yn golygu bod y Cynulliad yn cymeradwyo archeb ffioedd a thaliadau sy'n rhoi manylion yr uchafswm y gall swyddog canlyniadau ei hawlio am wasanaethau a threuliau adeg etholiad.

7.9. Gall swyddog canlyniadau hawlio blaendal ar y treuliau ac yna ceir proses gymhleth sy'n golygu cyflwyno ac archwilio cyfrifon, gyda chyfrifo'n digwydd i bennu a oes gan y swyddog canlyniadau hawl i swm yn ychwanegol at y blaendal neu a oes gofyn iddo ad-dalu rhywfaint o'r ffi a gafodd.

7.10. Gall gymryd hyd at flwyddyn ar ôl etholiad i gyfrifon gael eu cwblhau ac mae'r adnoddau a'r amser sydd eu hangen i wneud hyn, ar lefel awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, yn sylweddol. Un o fanteision y broses hon yw cywirdeb. Er hynny, mae'n debygol y ceid arbediad cyffredinol mewn arian cyhoeddus pe symudid at system lle byddai costau etholiad yn cael eu talu ar sail fformiwla – wedi'i chyplysu â maint etholaethau – a byddai'n rhaid i swyddogion canlyniadau sicrhau bod eu gwariant ar yr etholiad o fewn y fformiwla hon.

7.11. Yn y sefyllfa hon, byddai angen trefniadau i ddelio ag adennill unrhyw arian dros ben a byddai'n rhaid i'r broses fod yn agored i'w harchwilio.

**C40 – A ddylai Llywodraeth Cymru symud at system o gyfrifo costau etholiadau Cynulliad yn ôl fformiwla y cytunwyd arni, wedi'i seilio ar faint yr etholaeth?**

## 8. Casgliad

8.1. Gydag unrhyw newidiadau y penderfynwn fwrw ymlaen â nhw, byddwn yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid drwy sefydlu Bwrdd Rhaglen Diwygio Etholiadol. Byddwn hefyd yn rhan o Fwrdd Cydlynu Etholiadau Cymru, a sefydlwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

8.2. Rydym yn ymwybodol nad y cynigion hyn yw'r unig gynigion am newid a allai godi maes o law. Mae Rhaglen Moderneiddio Trefniadau Cofrestru Etholiadol Llywodraeth y DU yn parhau, ac yn ddiweddar fe ymgynghorodd Swyddfa Cabinet y DU ar newidiadau i gofrestriadau dienw. Mae Llywydd y Cynulliad wedi sefydlu panel arbenigol i ystyried, ymysg pethau eraill, ddiwygiadau i'r ffordd y caiff y Cynulliad ei ethol.

8.3. At hyn, mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi adolygu'r gyfraith etholiadol ac wedi cyflwyno adroddiad ar y diwygiadau a argymhellir. Eu nod oedd cysoni'r gyfraith etholiadol, gan foderneiddio a symleiddio ar yr un pryd. Deallwn fod y cynigion hyn yn annhebygol o arwain at gyhoeddi Bil Llywodraeth ond gellid bwrw ymlaen â hynny – i raddau – drwy is-ddeddfwriaeth.

8.4. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno llu o ddiwygiadau posibl i'r broses etholiadol yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i foderneiddio gweithdrefnau sydd heb newid llawer ers blynyddoedd maith. Mae angen inni annog llawer mwy o gyfranogi yn y byd gwleidyddol a gallai hwyluso'r prosesau sy'n arwain at y cam o fwrw pleidlais chwarae rhan bwysig yn hyn.

8.5. Er ein bod wedi nodi nifer o gynigion yn y papur hwn, ni fwriedir i hon fod yn rhestr gyflawn. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer diwygio'r prosesau gweinyddu etholiadol a'r prosesau democrataidd os yw'r rhain yn annog pobl i gofrestru a chymryd rhan.

8.6. Croesewir ymatebion. Os gwnaethoch ymateb i'r adran etholiadol yn y Papur Gwyn blaenorol, cewch gyfeirio at eich sylwadau blaenorol heb fod angen eu dyblygu.

**Anfonwch eich ymateb i RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk erbyn 10 Hydref 2017.**

## 9. Atodiad – Pleidlais i Garcharorion

9.1. Er gwaethaf arwyddion cynnar bod y mater hwn yn cael ei ystyried, mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi sylw i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop bod gwaharddiad cynhwysfawr ar garcharorion i'w hatal rhag pleidleisio yn mynd yn groes i Erthygl 3 o Brotocol Rhif 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, mae Prif Weinidog yr Alban wedi nodi y bydd angen i Weinidogion yr Alban ystyried eu sefyllfa ar bleidleisio i garcharorion yng ngoleuni Deddf yr Alban yn 2016.

9.2. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ymateb i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop. Mae Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop, sy'n gyfrifol am orfodi dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop, wedi galw ddwywaith ar y DU i ymateb i ddyfarniad y Llys.

9.3. Yn 2010, cyflwynodd Mark Harper, Gweinidog y DU dros Ddiwygio Cyfansoddiadol, ddatganiad yn dweud:

"The Government will therefore bring forward legislation providing that the blanket ban in the existing law will be replaced. Offenders sentenced to a custodial sentence of four years or more will lose the right to vote in all circumstances, which reflects the Government's clear view that more serious offenders should not retain the right to vote. Offenders sentenced to a custodial sentence of less than four years will retain the right to vote, but legislation will provide that the sentencing judge will be able to remove that right if they consider that appropriate. Four years has in the past been regarded as the distinction between short and long-term prisoners, and the Government consider that permitting prisoners sentenced to less than four years' imprisonment to vote is sufficient to comply with the judgment."

9.4. Byddai'r cyfnod cymhwyso pedair blynedd a gynigiwyd yn 2010 yn golygu y byddai oddeutu 45% o garcharorion yn cael hawl i bleidleisio ac yn amlwg, byddai'r rheini a gafwyd yn euog o droseddau mwy difrifol, ran amlaf, wedi cael dedfrydau hwy.

9.5. Er hynny, argymhellodd y Cydbwyllgor Dethol Seneddol a fu'n ystyried y Bil Cymhwystra i Bleidleisio (Carcharorion) drafft yn 2013:

- Y dylai pob carcharor sy'n treulio dedfryd o 12 mis neu lai gael yr hawl i bleidleisio yn holl etholiadau Ewropeaidd, lleol a seneddol y DU;
- Y dylai'r cyfryw garcharorion fod wedi'u cofrestru i bleidleisio yn yr etholaeth lle'r oeddent wedi'u cofrestru cyn eu dedfrydu; ac, os nad oes preswylfa flaenorol ar gael, y dylent allu cofrestru drwy wneud datganiad am eu cysylltiad lleol;
- Y dylai carcharorion gael yr hawl i ymgeisio, 6 mis cyn eu dyddiad rhyddhau, i gael eu cofrestru i bleidleisio yn yr etholaeth y byddant yn cael eu rhyddhau iddi.

9.6. Ni ddaeth yr un o'r cynigion hyn i rym ac mae'r llywodraeth Geidwadol a etholwyd yn 2015 wedi dweud yn glir na fyddant yn bwrw'r mater ymlaen. Mae'n ymddangos yn annhebygol yn y tymor byr y ceir newid yn yr etholfraint o safbwynt carcharorion, sy'n golygu mai dim ond carcharorion sydd ar remand sydd â'r hawl

i bleidleisio. (Er hynny, mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt rhwng Llywodraeth y DU a Chyngor Ewrop.)

9.7. Byddai'n bosibl i hawliau pleidleisio gael eu hestyn i oddeutu 3200[4] o garcharorion sy'n preswylio yng Nghymru. Byddai'r ystyriaeth lle byddent yn preswylio at ddibenion cofrestru yn bwysig yma. Gellid tybio bod carcharorion yn preswylio yn eu cyfeiriad y tu allan i'r carchar, neu gallent ddatgan cysylltiad lleol â chyfeiriadau yr oedd ganddynt gysylltiadau â nhw, megis cyfeiriadau eu rhieni neu eu teulu. Y dewis arall yw bod cyfeiriad y carchar yn cael ei ddefnyddio fel preswylfa berthnasol, er y gallai hyn achosi twf sydyn, digroeso o bosibl, yn natur etholwyr y ward leol. Nodir y bydd gan lawer o garcharorion yng ngharchardai Cymru gyfeiriadau cysylltiedig neu flaenorol yn Lloegr, lle na fydd yr etholfraint wedi'i hestyn o bosibl.

9.8. Mewn ymgynghoriad yn 2009, fe wnaeth Gweinyddiaeth Cyfiawnder y DU ar y pryd godi'r posibilrwydd o gofrestru carcharorion drwy ddefnyddio ffurflen gofrestru arbennig ar gyfer carcharorion dan gollfarn, wedi'i hardystio gan swyddog carchar dynodedig. Byddai hyn yn galluogi carcharorion i gofrestru i bleidleisio drwy'r dull 'cofrestru treigl', drwy gyfeirio at breswylfa flaenorol neu alluogi carcharorion i wneud 'datganiad o gysylltiad lleol' os na cheir cysylltiad â phreswylfa flaenorol. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd a fyddai'n well i garcharorion bleidleisio drwy'r post a sut y dylai manylion carcharorion ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

9.9. Dull arall ar gyfer Cymru, o bosibl, yw y dylai carcharorion gadw eu henwau ar y gofrestr adeg eu heuogfarnu. Byddai angen i'r swyddog canlyniadau drefnu iddynt gael pleidlais bost yn y sefydliad lle maent yn preswylio, neu drefnu bod pleidlais trwy ddirprwy yn cael ei bwrw ar eu rhan. Byddent yn aros ar y gofrestr honno nes iddynt gael eu rhyddhau.

9.10. Gellid cael proses gofrestru o hyd ar gyfer unigolion sydd heb eu cofrestru, fel y disgrifir yn y dewisiadau uchod. Byddai angen i unrhyw estyniad i'r etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed gael sylw a byddai angen proses ar gyfer cofrestru pobl ifanc o dan yr oed pleidleisio sy'n cyrraedd yr oed pleidleisio yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

9.11. Caniateir i garcharorion bleidleisio fel mater o drefn yn Iwerddon, Ffrainc, yr Iseldiroedd, yr Eidal a'r Almaen, fel yn y Ffindir a Sweden (sydd hefyd yn caniatáu i bleidiau gwleidyddol gynnal cyfarfodydd ymgyrchu mewn carchardai).

**C41 – A ddylid caniatáu i garcharorion Cymreig gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru? Os felly, a ddylid cyfyngu hyn i rai sydd wedi'u dedfrydu i lai na deuddeg mis, pedair blynedd, neu ddedfryd o unrhyw hyd?**

**C42 - Drwy ba ddull y dylai carcharorion fwrw pleidlais?**

**C43 – Ym mha gyfeiriad y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio?**

[4] https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2017

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

C1 – A ydych yn cytuno y dylai'r oed i gael hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael ei ostwng i 16?

C2 – A ddylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl i'r DU adael yr UE barhau i gael yr hawl i bleidleisio?

C3 – A ddylai hawliau pleidleisio gael eu hestyn i'r holl drigolion cyfreithlon yng Nghymru, heb ystyried eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth?

C4 – Caiff dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol yng Nghymru. A ddylai hyn barhau a chael ei estyn i bob cenedl sy'n dod yn gymwys i bleidleisio?

C5 – A ddylai swyddogion cofrestru etholiadol fod â mwy o ddewis o ffynonellau ar gael iddynt i helpu dinasyddion i gael eu hychwanegu i'r gofrestr?

C6 – Yn eich barn chi, pa ffynonellau data y dylai swyddogion cofrestru etholiadol eu defnyddio?

C7 – A ddylai ystod ehangach o staff awdurdodau lleol gael yr hawl i helpu dinasyddion i gofrestru drwy gael mynediad i'r gofrestr llywodraeth leol a bod â'r gallu i'w diwygio?

C8 – Pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio i sicrhau bod y swyddog cofrestru etholiadol yn cadw'r rheolaeth gyffredinol dros y gofrestr?

C9 –A ddylai rheolau cofrestru unigolion gael eu llacio i ganiatáu ar gyfer cofrestriadau bloc mewn amgylchiadau penodol, gan ddiogelu hawliau pleidleisio poblogaethau a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu heithrio?

C10 – A ddylem roi dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried a ddylai unrhyw grwpiau unigol yn eu hardal etholiadol gael eu targedu'n benodol mewn ymgyrchoedd cofrestru?

C11 – A ddylem gyflwyno trefniadau sy'n golygu bod gan asiantaethau sy'n ymwybodol o bobl yn symud ddyletswydd i roi gwybod i'r swyddogion cofrestru etholiadol?

C12 – Beth yw eich barn am ddatblygu un gofrestr electronig i Gymru?

C13 – A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau fod yn gallu dewis eu system bleidleisio?

C14 – A ydych yn cytuno y dylid cael mwyafrif dau draean ar gyfer newid cyfansoddiadol fel

hwn?

C15 – A ydych yn cytuno y dylai cyfnod llywodraeth leol yng Nghymru gael ei bennu'n gyfnod pum mlynedd?

C16 – A ydych yn cytuno mewn egwyddor y byddai'n fuddiol diwygio'r system bleidleisio i annog mwy o bobl i gymryd rhan?

C17 – A oes unrhyw gynlluniau eraill na roddir sylw iddynt y gellid eu defnyddio i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru?

C18 – A ddylai cynghorau gael dewis defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn etholiadau cyngor?

C19 – A ddylid cynnal ymarferiadau treialu i ddechrau?

C20 – A ddylai cynghorau gael defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn ward unigol neu mewn nifer o wardiau o fewn ardal y cyngor?

C21 – A ddylai pleidleisio electronig fod ar gael mewn etholiadau lleol?

C22 – A ddylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?

C23 – A ddylid cyflwyno cyfrif electronig ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru?

C24 – A ddylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael mewn etholiadau lleol?

C25 – A ddylem alluogi swyddogion canlyniadau i ddefnyddio mannau pleidleisio eraill yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?

C26 – A ddylem ei gwneud yn bosibl i etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddyddiau heblaw dydd Iau?

C27 – A ddylid ystyried symleiddio'r deunydd darllen a'r trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post?

C28 – Yn eich barn chi, sut y dylai'r broses gael ei symleiddio?

C29 – A ddylai etholwyr sy'n mynd i orsaf bleidleisio orfod dangos dogfen adnabod cyn cael pleidleisio? Os felly, pa fathau o ddogfennau adnabod ddylai fod yn dderbyniol?

C30 – A yw manteision mynnu gweld dogfen adnabod yn fwy na'r perygl o rwystro pleidleiswyr?

C31 – A ydych yn cytuno na ddylai fod yn angenrheidiol bellach i gyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn deunydd etholiadol, gan gynnwys unrhyw beth a gyhoeddir yn electronig?

C32 – A ydych yn cytuno y dylid gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad personol i'w gynnwys ar wefan a ddarperir gan yr awdurdod y maent yn gobeithio cael eu hethol iddo?

C33 – A ydych yn cytuno na ddylid caniatáu i neb wasanaethu fel Aelod Cynulliad a chynghorydd ar yr un pryd?

C34 – A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ymlyniad gwleidyddol sydd ganddynt?

Q35 – Pa fath o dystiolaeth y dylai fod ei hangen i awgrymu bod ymlyniad gwleidyddol sydd heb ei ddatgelu?

C36– A ddylai unrhyw rai o staff y cyngor islaw'r lefel uwch fod yn gallu sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain?

C37 – A oes cyfiawnhad o hyd i gynghorau gadw rhestr o'r swyddi, heblaw am swyddi uwch-swyddogion, a ddylai fod dan gyfyngiadau gwleidyddol?

C38 – A ydych yn cytuno y dylai rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau?

C39 – A ydych yn cytuno y dylai unrhyw ychwanegiad at gyflog i gydnabod dyletswyddau swyddog canlyniadau fod yn fater i'r awdurdod lleol benderfynu arno?

C40 – A ddylai Llywodraeth Cymru symud at system o gyfrifo costau etholiadau Cynulliad yn ôl fformiwla y cytunwyd arni, wedi'i seilio ar faint yr etholaeth?

C41 – A ddylid caniatáu i garcharorion Cymreig gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru?

C42 – Os felly, a ddylid cyfyngu hyn i rai sydd wedi'u dedfrydu i lai na deuddeg mis, pedair blynedd, neu ddedfryd o unrhyw hyd? Drwy ba ddull y dylai carcharorion fwrw pleidlais?

C43 – Ym mha gyfeiriad y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio?

C44 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwygio etholiadol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

C 45 - Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall yr opsiynau arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C46 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:
Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

**C1 – A ydych yn cytuno y dylai'r oed i gael hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael ei ostwng i 16?**

Yn ei ymateb i'r Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad, dywedodd y Cyngor bod angen "rhoi ystyriaeth briodol i'r mater hwn a chynnal cynllun peilot ble yr oedd hynny'n briodol. Bydd gostwng oed pleidleisio i 16 yn annog mwy o bobl ifanc i ymgysylltu'n ddemocrataidd – mae nifer y bobl ifanc sy'n pleidleisio yn parhau i fod yn isel ar hyd a lled y wlad." Gall delio gyda mwy nag etholiad ar yr un pryd achosi problemau ymarferol sylweddol mewn gorsafoedd pleidleisio petai, er enghraifft, etholiad Seneddol neu etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiad llywodraeth leol – mae angen rhoi sylw manwl i'r ystyriaethau hyn a dysgu o/rhannu'r trefniadau a gyflwynwyd yn Yr Alban.

**C2 – A ddylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl i'r DU adael yr UE barhau i gael yr hawl i bleidleisio?**

Dim sylwadau penodol – mater i lywodraeth ganolog yw hwn.

**C3 – A ddylai hawliau pleidleisio gael eu hestyn i'r holl drigolion cyfreithlon yng Nghymru, heb ystyried eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth?**

Dim sylwadau penodol – mater i lywodraeth ganolog yw hwn.

**C4 – Caiff dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol yng Nghymru. A ddylai hyn barhau a chael ei estyn i bob cenedl sy'n dod yn gymwys i bleidleisio?**

O bersbectif gweithdrefnol, gallai hyn gael goblygiadau o ran y defnydd o wefan gofrestru gov.uk petai'r sefyllfa gyfredol yn cael ei newid mewn unrhyw fodd.

**C5 – A ddylai swyddogion cofrestru etholiadol fod â mwy o ddewis o ffynonellau ar gael iddynt i helpu dinasyddion i gael eu hychwanegu i'r gofrestr?**

Dylent – ar yr amod bod y ffynonellau data yn gyfredol – nid ydynt yn ddefnyddiol fel arall.

**C6 – Yn eich barn chi, pa ffynonellau data y dylai swyddogion cofrestru etholiadol eu defnyddio?**

Byddai cytundebau rhannu data gydag asiantaethau allanol neu lywodraeth ganolog yn ddefnyddiol.

**C7 – A ddylai ystod ehangach o staff awdurdodau lleol gael yr hawl i helpu dinasyddion i gofrestru drwy gael mynediad i'r gofrestr llywodraeth leol a bod â'r gallu i'w diwygio?**

Nid oes angen i staff y Cyngor gael mynediad i'r gofrestr etholwyr i hyrwyddo neu hwyluso cofrestriad drwy'r wefan gov.uk er mae'n bosibl fod arferion gweithio yn wahanol ym mhob awdurdod lleol. Mae mynediad i'r gofrestr wedi ei gyfyngu ar hyn o bryd drwy ddeddfwriaeth.

**C8 – Pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio i sicrhau bod y swyddog cofrestru etholiadol yn cadw'r rheolaeth gyffredinol dros y gofrestr?**

Mae'r rheolaethau cyfredol yn ddigonol os bydd pethau'n aros fel y maent.

**C9 –A ddylai rheolau cofrestru unigolion gael eu llacio i ganiatáu ar gyfer cofrestriadau bloc mewn amgylchiadau penodol, gan ddiogelu hawliau pleidleisio poblogaethau a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu heithrio?**

Ni ddylid gwneud unrhyw newid i'r system gofrestru etholiadol unigol a fyddai'n cael effaith ar gadernid y system gofrestru.

**C10 – A ddylem roi dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried a ddylai unrhyw grwpiau unigol yn eu hardal etholiadol gael eu targedu'n benodol mewn ymgyrchoedd cofrestru?**

Mae dyletswydd eisoes i dargedu cofrestriad a dyma un o safonau perfformiad y Comisiwn Etholiadau. Ni wnaeth gwaith y Tîm Deall Ymddygiad ('Behavioural Insight') yn ardal Gogledd Cymru arwain at unrhyw gynnydd sylweddol yn nifer y sawl gofrestrodd.

**C11 – A ddylem gyflwyno trefniadau sy'n golygu bod gan asiantaethau sy'n ymwybodol o bobl yn symud ddyletswydd i roi gwybod i'r swyddogion cofrestru etholiadol?**

Gallai hyn fod yn ddefnyddiol ond rydym yn ansicr o'r modd y byddai hyn yn gweithio ar lefel ymarferol, mae'n bwysig peidio dyblygu unrhyw ofyniad cyfredol i hysbysu adrannau treth gyngor oherwydd byddai'n creu gwaith yn ddianghenraid.

**C12 – Beth yw eich barn am ddatblygu un gofrestr electronig i Gymru?**

Mae dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadau i baratoi dwy gofrestr ar wahân, un ar gyfer etholwyr seneddol a'r llall ar gyfer etholwyr llywodraeth leol. Er bod dwy gofrestr ar wahân yn cael eu creu, maent yn cael eu storio ar yr un system feddalwedd. Nid ydym yn gweld mantais creu cofrestr electronig i Gymru tra ar yr un pryd yn gorfod cadw rhestr ar wahân o etholwyr seneddol.  Un ystyriaeth bwysig fyddai penderfynu pwy fyddai'n *'lletya' y gofrestr hon.*

**C13 – A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau fod yn gallu dewis eu system bleidleisio?**

Mae pryderon ynghylch agweddau ymarferol rhedeg un system bleidleisio ar gyfer cyngor prif ardal a system arall ar gyfer etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cael eu cynnal ar yr un diwrnod. Mae hyn yn risg y mae angen rhoi ystyriaeth briodol iddi. Mae angen osgoi biwrocratiaeth a chymhlethdod ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan mewn etholiadau.

**C14 – A ydych yn cytuno y dylid cael mwyafrif dau draean ar gyfer newid cyfansoddiadol fel hwn?**
Dylid sefydlu dull cyson, deddfwriaethol ar draws Cymru. Dylid osgoi disgresiwn lleol oherwydd gall fod goblygiadau ychwanegol o safbwynt adnoddau ar adeg o doriadau i gyllidebau.

DRAFT

**C15 – A ydych yn cytuno y dylai cyfnod llywodraeth leol yng Nghymru gael ei bennu'n gyfnod pum mlynedd?**

Mae hyn yn gwneud synnwyr yn unol ag etholiadau eraill a threfniadau democrataidd.

**C16 – A ydych yn cytuno mewn egwyddor y byddai'n fuddiol diwygio'r system bleidleisio i annog mwy o bobl i gymryd rhan?**

Gweler y sylwadau dan 1 uchod. Mae angen tystiolaeth glir y bydd lefelau cyfranogiad yn cynyddu. Mae'r nifer sy'n troi allan i bleidleisio mewn etholiadau lleol ymysg yr uchaf yng Nghymru.

**C17 – A oes unrhyw gynlluniau eraill na roddir sylw iddynt y gellid eu defnyddio i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru?**

Dim sylwadau penodol.

**C18 – A ddylai cynghorau gael dewis defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn etholiadau cyngor?**

Na, oherwydd mae'n gwneud i ffwrdd â'r elfen o ddewis i'r etholwyr ac ni fedrir cyflwyno system bleidlais bost yn unig heb lacio'r cadernid a'r diogelwch sy'n angenrheidiol ar gyfer y system gyfredol o bleidleisio drwy'r post.

**C19 – A ddylid cynnal ymarferiadau treialu i ddechrau?**

Gallai hyn ddrysu etholwyr a byddai angen cynnal ymarfer cyfathrebu cyn cyflwyno unrhyw gynllun peilot.

**C20 – A ddylai cynghorau gael defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn ward unigol neu mewn nifer o wardiau o fewn ardal y cyngor?**

Eto, gallai hyn ddrysu'r etholwyr.

**C21 – A ddylai pleidleisio electronig fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

Ar hyn o bryd, mae cwestiynau'n rhyngwladol ynghylch cadernid pleidleisio electronig a byddem yn anesmwyth ynghylch argymell ei weithredu hyd oni fydd y materion hyn wedi cael eu datrys.

**C22 – A ddylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

Gweler yr ateb i gwestiwn 21.

**C23 – A ddylid cyflwyno cyfrif electronig ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru?**

Nid ydym yn gwrthwynebu hyn. Mae angen rhoi sylw priodol i'r goblygiadau o ran cost a gwerth am arian ynghyd â'r opsiynau ar gyfer peilota'r cynllun.

DRAFT

**C24 – A ddylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

Byddai hyn yn dibynnu ar weithrediad cofrestr electronig ganolog a phleidleisio electronig. Mae angen lleihau i'r eithaf ar unrhyw ddryswch i'r sawl sy'n cymryd rhan yn yr etholiadau.

**C25 – A ddylem alluogi swyddogion canlyniadau i ddefnyddio mannau pleidleisio eraill yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?**

Gweler y sylwadau dan C24.

**C26 – A ddylem ei gwneud yn bosibl i etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddyddiau heblaw dydd Iau?**

Mae cael etholiad ar fwy nag un diwrnod yn cyflwyno risgiau o safbwynt diogelwch ac yn codi cwestiwn ynghylch a fyddai'n arwain at gynnydd yn y nifer sy'n troi allan i bleidleisio. Gallai pleidleisio dros y penwythnos greu problemau o ran argaeledd adeiladau y gellid eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

**C27 – A ddylid ystyried symleiddio'r deunydd darllen a'r trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post?**

Gallai symleiddio'r broses amharu ar gadernid yr etholiad.

**C28 – Yn eich barn chi, sut y dylai'r broses gael ei symleiddio?**

Yr unig ofyniad ar hyn o bryd yw darparu dyddiad geni a llofnod. Mae'n anodd gweld sut y gallai'r system fod yn symlach.

**C29 – A ddylai etholwyr sy'n mynd i orsaf bleidleisio orfod dangos dogfen adnabod cyn cael pleidleisio? Os felly, pa fathau o ddogfennau adnabod ddylai fod yn dderbyniol?**

Dylem ddisgwyl am ganlyniad cynllun peilot etholiadau lleol 2018 yn Lloegr.

**C30 – A yw manteision mynnu gweld dogfen adnabod yn fwy na'r perygl o rwystro pleidleiswyr?**

Dylem ddisgwyl am ganlyniad cynllun peilot etholiadau lleol 2018 yn Lloegr.

**C31 – A ydych yn cytuno na ddylai fod yn angenrheidiol bellach i gyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn deunydd etholiadol, gan gynnwys unrhyw beth a gyhoeddir yn electronig?**

Mae nifer o etholwyr mewn etholiadau lleoliad yn disgwyl cael gwybod a yw'r ymgeisydd yn byw yn eu hardal leol ac efallai y byddant yn anfodlon o beidio cael gwybod lle mae ymgeisydd yn byw.

**C32 – A ydych yn cytuno y dylid gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad personol i'w gynnwys ar wefan a ddarperir gan yr awdurdod y maent yn gobeithio cael eu hethol iddo?**

Nid yw'r system a ddefnyddir ar gyfer ymgeiswyr yn yr etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn effeithiol oherwydd nid yw'r cyhoedd yn yr etholiadau hyn bob amser yn hollol ymwybodol o ymgeisyddiaeth person. Dylid ei gwneud yn orfodol i'r holl ymgeiswyr ddarparu datganiad personol ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdodau er mwyn annog pobl i droi allan i bleidleisio.

**C33 – A ydych yn cytuno na ddylid caniatáu i neb wasanaethu fel Aelod Cynulliad a chynghorydd ar yr un pryd?**

Mae angen gwerthuso baich gwaith a'r pwysau ar unigolion sy'n ymgymryd â'r ddwy rôl. Mae angen ystyried gwahanu cyfrifoldebau/rolau er budd atebolrwydd democrataidd.

**C34 – A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ymlyniad gwleidyddol sydd ganddynt?**

Dim sylwadau penodol

**C35 – Pa fath o dystiolaeth y dylai fod ei hangen i awgrymu bod ymlyniad gwleidyddol sydd heb ei ddatgelu?**

Dim sylwadau penodol

**C36– A ddylai unrhyw rai o staff y cyngor islaw'r lefel uwch fod yn gallu sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain?**

Dim sylwadau penodol

**C37 – A oes cyfiawnhad o hyd i gynghorau gadw rhestr o'r swyddi, heblaw am swyddi uwch-swyddogion, a ddylai fod dan gyfyngiadau gwleidyddol?**

Dim sylwadau penodol

**C38 – A ydych yn cytuno y dylai rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau?**

Mae'n hanfodol bod y rôl yn parhau i fod yn annibynnol.

**C39 – A ydych yn cytuno y dylai unrhyw ychwanegiad at gyflog i gydnabod dyletswyddau swyddog canlyniadau fod yn fater i'r awdurdod lleol benderfynu arno?**

Dyma'r sefyllfa bresennol a dylai aros fel y mae.

**C40 – A ddylai Llywodraeth Cymru symud at system o gyfrifo costau etholiadau Cynulliad yn ôl fformiwla y cytunwyd arni, wedi'i seilio ar faint yr etholaeth?**

Ni fyddai hyn yn cymryd i ystyriaeth broffiliau unigol yr etholaethau unigol (natur wledig, poblogaeth ar wasgar) – mae'r cyfan oll yn ychwanegu costau a dylai'r costau adlewyrchu'r realiti o redeg etholiadau ym mhob etholaeth unigol yn hytrach na defnyddio fformiwla simplistig.

**C41 – A ddylid caniatáu i garcharorion Cymreig gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru?**

Dim sylwadau penodol

**C42 – Os felly, a ddylid cyfyngu hyn i rai sydd wedi'u dedfrydu i lai na deuddeg mis, pedair blynedd, neu ddedfryd o unrhyw hyd? Drwy ba ddull y dylai carcharorion fwrw pleidlais?**

Dim sylwadau penodol

**C43 – Ym mha gyfeiriad y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio?**

Dim sylwadau penodol

**C44 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwygio etholiadol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig fod yn unol â gofynion Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

**Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

**C45 - Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall yr opsiynau arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dylid defnyddio a hyrwyddo Cymraeg Clir ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau bod deunydd ar gael i'r gwahanol gynulleidfaoedd a bod safonau'n cael eu cynnal.

**C46 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Rhowch eich sylwadau yma: Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | 27 MEDI 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGU AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU |

## 1 CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Democrataidd ar gynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers yr etholiad ar 4 Mai 2017.

Datblygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Raglen Gynefino (ar ôl Mai 2017) ar gyfer Aelodau a oedd newydd eu hethol gyda mewnbwn gan Awdurdodau Lleol ac Aelodau Etholedig ar draws Cymru, sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol ac arfer orau.

Cafodd y cynllun hwn ei adolygu a'i addasu ar gyfer anghenion lleol gyda mewnbwn gan yr Uwch Swyddogion ac Arweinyddion Grwpiau er mwyn bodloni anghenion yr Awdurdod hwn.

## 2 CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd Cynllun Datblygu'r Awdurdod hwn ar gyfer 2017/2018 i'r Cyngor Llawn ac fe'i mabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2017. Y bwriad yw i'r cynllun fod yn ddogfen sy'n esblygu a'i fod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu anghenion Aelodau Etholedig a'r pwysau busnes sy'n newid (gweler atodiad 1).

Mae rhan gyntaf y cynllun wedi canolbwyntio ar gynefino Aelodau Etholedig newydd gyda'r Awdurdod, gan sicrhau bod gwybodaeth ynghylch prosesau/gweithdrefnau ynghyd â dealltwriaeth o'u rôl o ran Rhaglen Waith Llywodraethiant Corfforaethol a Strategol CSYM yn cael eu hegluro.

Rhwng mis Mai a Medi 2017 cynigiwyd cyfanswm o 20 o sesiynau datblygu ffurfiol (fel y manylir arnynt yn atodiad 2), o'r rhain, roedd 2 yn benodol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau Cynllunio a Sgriwtini, 5 yn sesiynau galw heibio ad-hoc (IPads). O'r sesiynau gweddilliol,

roedd cyfradd presenoldeb i'r holl sesiynau ar gyfartaledd yn 51.85% ac mae'r presenoldeb ar gyfer y sesiynau Mandadol fel y gweler yn atodiad 3.

Bydd hyfforddiant IPads pellach yn cael ei ddarparu a sesiynau "galw heibio" ad-hoc yn cael eu trefnu i roi sylw i unrhyw anghenion unigol.

Yn ychwanegol at y sesiynau ffurfiol a gynhaliwyd, trefnwyd nifer o sesiynau briffio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/Swyddogion yn ystod y cyfnod hwn. (Nid yw manylion y sesiynau hyn wedi eu cofnodi ar gofnod hyfforddiant personol yr Aelodau Etholedig unigol yn y Gwasanaeth AD).

Yn dilyn pob sesiwn hyfforddiant, gwneir trefniadau i sicrhau bod manylion yr holl gyflwyniadau'n cael eu llwytho i fyny i'r rhan honno o MonITor (safle mewnrwyd y Cyngor) sydd ar gyfer yr Aelodau fel bod yr adnoddau hyn ar gael i gyfeirio atynt yn dyfodol petai eu hangen. Bydd unrhyw anghenion hyfforddi pellach yn cael eu cynllunio yn ôl yr angen unwaith y bydd adborth/gofynion mewn perthynas â'r anghenion hyn wedi eu derbyn gan yr Aelodau.

**E-Ddysgu**

Datblygiad newydd ar gyfer 2017 yw'r cyfle i Aelodau Etholedig gael mynediad i raglenni E-Ddysgu i'w cynorthwyo gyda'u datblygiad personol fel rhan o fenter Gweithio'n Gallach yr Awdurdod. Caiff y rhaglenni hyn eu datblygu gan Awdurdodau Lleol Cymru mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chânt eu cynnal drwy Academi Cymru Gyfan.

Disgwylir y bydd mynediad yn cael ei gylchredeg fel rhan o'r lansiad o Borth E-Ddysgu CSYM yn ystod mis Medi. Rhydd hyn fynediad i Aelodau Etholedig i adnoddau dysgu ehangach y Cyngor.

**Gwerthusiad**

Anogir Aelodau Etholedig i lenwi taflenni gwerthuso (gweler atodiad 4) er mwyn sicrhau y derbynnir adborth. Mae hyn o gymorth i sefydlu a yw'r hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion yr Aelodau; nodi anghenion hyfforddiant ychwanegol a hefyd yn gweithredu fel ymarfer sicrhau ansawdd.

Yn ychwanegol at hyn, caiff manylion am yr hyfforddiant a gynigiwyd/a fynychwyd, ei gofnodi ar gofnod personol yr Aelodau, mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth ar adeg cynnal Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP).

Yn y pen draw, bydd cadw data o'r fath o gymorth i Aelodau Etholedig pan fyddant yn paratoi eu hadroddiadau blynyddol.

**Costau**

Caiff hyfforddiant ei ddarparu drwy gyfuniad o sesiynau a arweinir gan Swyddogion a chan ddarparwyr allanol. Hyd yma, mae costau wedi cael eu cyfyngu i luniaeth/llogi ystafelloedd/gwasanaethau cyfieithu.

## 3 ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU

Mae hyfforddiant ar ADP wedi cael ei gynnwys ar y cynllun blynyddol ar gyfer ei ddarparu yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

Yn unol â'r trafodaethau corfforaethol, cynhelir gwerthusiadau blynyddol staff yn ystod Ionawr/Chwefror, felly er mwyn cyd-fynd â'r trefniadau corfforaethol/dyraniadau cyllidebol, byddai'n briodol cynnal ADP o fewn yr un amserlen.

Mae Disgrifiadau Swydd ar gyfer rôl(rolau) yr holl Aelodau Etholedig wedi cael eu cylchredeg ac o'r herwydd, byddant yn ddefnyddiol ar gyfer y trafodaethau a gynhelir yn ystod yr adolygiadau.

## 4 CEFNOGAETH GAN GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Bu gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael gan CLlLC ac mae hynny wedi cael effaith uniongyrchol ar draws sawl maes gan gynnwys cefnogi a datblygu aelodau. Fodd bynnag, mae rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol megis yr Academi Arweinyddiaeth a Mentrau Cynefino Rhanbarthol yn parhau i fod ar gael.

Caiff manylion am y cyfleon hyn eu cylchredeg fel a phan y maent yn dod i law.

## 5 CRYNODEB

Bydd y cynllun datblygu'n parhau i gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cynigion a gynigir i Aelodau Etholedig yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd. Bydd y Rheolwr Datblygu AD yn parhau i annog gwasanaethau i hysbysu'r Uned AD o unrhyw sesiynau briffio ad-hoc sydd wedi eu trefnu fel y gellir cynnwys y rhain hefyd ar y cynllun ac yng nghofnodiadau hyfforddiant personol yr Aelodau Etholedig.

## 6 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran y Rhaglen Datblygu Aelodau.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu AD**
**Medi 2017**

**Rhaglen cyflwyno CSYM i gynghorwyr (ar sail model CLILC) dros flwyddyn gan ddangos cyfleoedd i gyfuno hyfforddiant gorfodol yn ôl argaeledd adnoddau.**
**Bwriedir, lle bosib, cynnal y sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau.**

****Wedi nodi dyddiadau/amseroedd lle posib****

| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| Ymgynefino (Swyddfeydd y Cyngor a threfniadau cefnogaeth Aelodau) | Aelodau Etholedig Newydd | JHJ | **08/05/2017** |
| Cyflwyno'r cyngor, ei rôl a threfn ei lywodraethu a Rhaglen Waith Strategol | Pob Aelod Etholedig | Prif Weithredwr | **11/05/2017 & 18/05/2017** |
| Cyflwyno TGCh a'r offer yn cynnwys ymwybyddiaeth o Gyfryngau cymdeithasol ( i gynnwys Gweddarlledu) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion TGCh, sesiynau unigol. | **12/05/2017** |
| Cyflwyno'r amryw wasanaethau | Pob Aelod Etholedig | Pob uwch swyddog (2 sesiwn x1 awr) **11/5 a 18/5 rhwng 9.30 – 12.30yp** | **11/05/2017 & 18/5/2017** |
| Côd Ymddwyn a Moeseg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro. **Lynn Ball 2 – 3yp** | **18/5/2017** |
| Materion cyfansoddiadol megis cymryd rhan mewn cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro **1/6 2 -4yp** | **05/06/2017** |
| Materion ariannol megis pennu cyllidebau a rheoli'r trysorlys | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Cyllid a dysgu electronig | **25/05/2017** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Materion cynllunio i gynghorwyr nad ydynt yn ymwneud â'r maes hwnnw – protocolau | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion Cynllunio/Aelod profiadol DFJ – sesiwn ar y cyd gyda Gwynedd **9.30yb – 12.30yp** | **1/6/2017** |
| Trefniadau newydd pwyllgorau cynllunio yn sgîl Deddf Cynllunio | Pwyllgor cynllunio **(M)** | Swyddog Cynllunio DFJ ar y cyd gyda Gwynedd<br><br>**9.30yb – 12.30yp** | **1/6/2017** |
| Gofynion newydd o ran polisïau, gwasanaethau a'r gyfraith | Pwyllgorau perthnasol | Penaethiaid Gwasanaethau | **Sesiynau briffio yn cychwyn mis Mehefin** |
| Rôl Pwyllgorau Craffu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | J Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Anwen G Davies, Swyddog Craffu dros dro | **05/06/2017** |
| Cadeirio Craffu (rheolaeth pwyllgorau a cyfarfodydd) | Cadeirydd pob pwyllgor craffu | Rebecca Davies-Knight Canolfan Craffu Cyhoeddus | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Archwilio | Pwyllgor Achwilio **(M)** | Swyddogion Cyllid | **25/05/2017** |
| Diogelu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy - Cyfarwyddwr Addysg a Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu electronig. | **07/07/2017** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiantu Corfforaethol | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Deddf Tai | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Shân Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai & Jim McKirdle, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru. | **06/07/2017** |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Caroline Turner – Cynorthwydd Prif Weithredol<br>Alwyn Rhys Jones – Penaeth Gwasanaeth Oedolion & Llyr Bryn Roberts – Penaeth Gwasanaeth Dros Dro - Plant | **07/07/2017** |
| Penderfynu er lles cenedlaethau'r dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Rheoli data a Deddf Mynnu Gwybodaeth | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy a dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Cyflwyniad i Cydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy swyddogion cydraddoldeb a dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Arwain cymuned a thrin a thrafod achosion | Pob Aelod Etholedig | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadol uchelradd/e- | **Medi 2017 ymlaen** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddysgu | |
| Datblygu Pwyllgor Gwaith newydd | Pwyllgor Gwaith | Hwyluswyr allanol | **Medi 2017 ymlaen** |
| Cynghorwyr Newydd, Heriau Newydd | Pob Aelod Etholedig | Pum gweithdy rhanbarthol gan CLILC – yn Llandudno | **03/11/2017** |
| Adolygiadau Cynlluniau Datblygu (CDP) ac Adroddiadau Blynyddol | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion CLILC/Uwch Swyddogion | **Tachwedd 2017** |
| Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd) | Pob Cadeirydd | Hwyluswyr allanol/e-ddysgu | **Yr ail chwe mis** |
| Gwaith Consortia Addysg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Staff Consortia | **Yr ail chwe mis** |
| Penodiadau, apeliadau a medrau cyfweld | Aelodau paneli penodi **(M)** | Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol | **18/09/2017** |
| Safonau | Pwyllgor safonau **(M)** | Swyddog Monitro | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |
| Trwyddedu | Pwyllgor trwyddedu **(M)** | Swyddog Trwyddedu | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |



**(M) = Mandadol**

**Bydd hyfforddiant pellach ar wybodaeth a sgiliau’n cael ei benderfynu o CDP pan fydd anwytho wedi ei gwblhau**

Atodiad / Appendix 2


| Mai / May 2017 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl Cwrs / Course Title** | Cyflwyniad I Wasanaethau'r Cyngor / Introduction to the Authority's Services | iPad** | iPad** | Cynllun Corfforaethol a Chôd Ymddygiad / Corporate Plan & Code of Conduct | Cyflwyniad I Wasanaethau'r Cyngor / Introduction to the Authority's Services | iPad** | Sesiwn Cyllid / Finance Session |
| **Dyddiad / Date** | 11/05/2017 | 12/05/2017 | 17/05/2017 | 18/05/2017 | 18/05/2017 | 18/05/2017 | 25/05/2017 |
| **Wedi Mynychu /Attended** | 21 | 12 | 7 | 25 | 14 | 7 | 16 |
| **Gwahoddir / Invited** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| **Ymddiheuriadau / Apologies** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| **Heb Fynychu / Non-Attendance** | 9 | 0 | 0 | 5 | 16 | 0 | 11 |

| Mehefin / June 2017 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl Cwrs / Course Title** | Sesiwn Briffio / Briefing Session | Cynllunio / Planning * | Datgan Diddordeb / Decleration of Interest (drop-in) | Craffu / Scrutiny * | Y Cyfansoddiad / The Constitution | Diweddaru Cofrestrau o Diddordeb / Updating Registers of Interest** | Diweddaru Cofrestrau o Diddordeb / Updating Registers of Interest** |
| **Dyddiad / Date** | 01/06/2017 | 01/06/2017 | 02/06/2017 | 05/06/2017 | 05/06/2017 | 12/06/2017 | 13/06/2017 |
| **Wedi Mynychu /Attended** | 17 | 10 | 7 | 19 | 18 | 0 | 0 |
| **Gwahoddir / Invited** | 30 | 11 | 30 | 19 | 30 | 30 | 30 |
| **Ymddiheuriadau / Apologies** | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 |
| **Heb Fynychu / Non-Attendance** | 13 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 |

| Gorffennaf / July 2017 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl Cwrs / Course Title** | Deddf Tai / Housing Act | Diogelu / Safeguarding | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) / Social Services and Well Being (Wales) Act | Materion Cynllunio / Planning Matters |
| **Dyddiad / Date** | 06/07/2017 | 07/07/2017 | 07/07/2017 | 21/07/2017 |
| **Wedi Mynychu /Attended** | 15 | 7 | 16 | 11 |
| **Gwahoddir / Invited** | 30 | 30 | 30 | 30 |
| **Ymddiheuriadau / Apologies** | 7 | 13 | 9 | 11 |
| **Heb Fynychu / Non-Attendance** | 8 | 10 | 5 | 8 |

* Aelodau Pwyllgor yn unig / Committee members only
** Sesiynau galw / Drop in sessions

Atodiad 3/Appendix 3 (Demo)




| | |
|---|---|
| 12,17,18/05/2017 - Hyfforddiant iPad Training | 26 |
| 18/05/2017 - Cynllun Corfforaethol a Chôd Ymddygiad / Corporate Plan & Code of Conduct | 25 |
| 25/05/2017 - Sesiwn Cyllid / Finance Session | 16 |
| Y Cyfansoddiad / The Constitution | 18 |
| 06/07/2017 - Deddf Tai / Housing Act | 15 |
| 07/07/2017 - Diogelu / Safeguarding | 7 |
| 07/07/2017 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) / Social Services and Well Being (Wales) Act | 16 |

| Sesiynau Aelodau'r Pwyllgor yn unig / Committee Members only sessions | |
|---|---|
| 01/06/2017 - Cynllunio / Planning * | 10/11 |
| 05/06/2017 - Craffu / Scrutiny * | 19/22 |

# Datblygu Aelodau / Member Development

## Teitl yr Hyfforddiant / Training Title

## Dyddiad / Date

Enw / Name : …………………………………………………………………………………….

1. Beth ydych wedi'i ddysgu a fydd o gymorth i chwi fel aelod yn eich ardal?
   What have you learned that will help you in your role as a member in your ward?

   ………………………………………………………………………………………....

   …………………………………………………………………………………………….

2. Beth ydych wedi'i ennill a fydd o gymorth i chwi fel aelod wrth drafod materion tu hwnt i'r plwy? (e.e. materion polisi y Cyngor ayyb).
   What have you gained that will help you as a member in relation to matters beyond your ward (e.g. Council policy matters etc.).

   …………………………………………………………………………………………….

   …………………………………………………………………………………………….

3. Sut fyddech yn mesur y profiad?
   How would you measure the experience?

| Ardderchog<br>Excellent | Da<br>Good | Iawn<br>Satisfactory | Gwael<br>Poor |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

4. Unrhyw sylwadau eraill
   Any other comments

   ……………………………………………………………………………………………

   ……………………………………………………………………………………………

   ……………………………………………………………………………………………

Cae54Members (Mawrth/March 2010)
(Diwygiwyd Mai 2010 / Amended May 2010 MDWG)

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 27 Medi 2017 |
| **Teitl:** | Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| **Awdur:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2016/17. |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau mewn lle i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau.

## 2.0 Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2015/16 a 2016/17

2.1 Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol gan yr holl Aelodau am 2015/16 ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2016 ar y linc isod:

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/adroddiad-blynyddol-gan-gynghorydd/

2.2 Yn dilyn etholiad y Cyngor Sir ym mis Mai, 2017 ail etholwyd 21 Aelod a 9 Aelod newydd. I'r pwrpas o gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2016/17 gan Aelodau a ail etholwyd mae'r amserlen fel a ganlyn:

- Cylchredeg templed i'r Aelodau – **erbyn 1 Awst, 2017 ( gweler y templed ynghlwm)**
- Aelodau i baratoi adroddiadau drafft i'r Gwasanaethau Democrataidd – **erbyn 31 Awst 2017**
- Cwblhau a chyhoeddi adroddiadau ar wefan y Cyngor - **erbyn 30 Medi**, **2017**

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor:

3.1 nodi'r sefyllfa ynghylch cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau ar gyfer 2016/17

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**18/09/2017**

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:**

**Grŵp:** **Ward:**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | [1]Ffigyrau Presenoldeb |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu .... cyfarfod (%).

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| Sesiynau Briffio Aelodau ( allan o = %) | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

| | |
|---|---|
| | **Ebrill 2017** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **27 MEDI, 2017** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2017/18** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **TRAFOD Y RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG AR GYFER 2017/18** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

1.0 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

1.1 O ran y rhaglen waith ar gyfer 2017/18, argymhellir y dylid canolbwyntio ar y meysydd isod:

- Y Cynllun ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Ymgynghoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru;
- Cyrff allanol a threfniadau cyflwyno gwybodaeth yn ôl;
- Amserlen cyfarfodydd;

**2.0 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**15/09/17**

This page is intentionally left blank